



Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru  
Natural  
Resources  
Wales

# Rheoli adnoddau naturiol heddiw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol



Ein Cynllun Corfforaethol hyd at 2022



Noddir gan  
Lywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government

## Ein gweledigaeth

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn falch o arwain y ffordd at ddyfodol gwell i Gymru drwy reoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy.

## Mae ein hamcanion llesiant fel a ganlyn:

- **Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy**
- **Sicrhau bod tir a dŵr yng Nghymru'n cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy ac integredig**
- **Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau**
- **Lleihau'r risg i bobl a chymunedau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd**
- **Helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy boddhaus**
- **Hyrwyddo busnes llwyddiannus a chyfrifol sy'n defnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi**
- **Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad rhagorol, sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf**

Sefydlwyd Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2013 i roi cyngor ar a gofalu am yr amgylchedd naturiol yng Nghymru a'i adnoddau naturiol. Ni yw'r corff mwyaf a noddir gan Lywodraeth Cymru ac mae gennym nifer o swyddogaethau gwahanol:

- **Cynghorydd** i Lywodraeth Cymru ac i ddiwydiant, perchnogion/rheolwyr tir, y cyhoedd yn ehangach, a'r sector gwirfoddol
- **Rheoleiddiwr** diwydiant a safleoedd gwastraff, a safleoedd morol, coedwigaeth a dynodedig, er enghraifft, gan amddiffyn pobl a'r amgylchedd naturiol
- **Dynodwr** Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a pharciau cenedlaethol, yn ogystal â chyhoeddi Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol
- **Ymatebwr** i tua 9,000 o ddigwyddiadau amgylcheddol a adroddwyd bob blwyddyn fel ymatebwr Categori 1 mewn argyfwng
- **Ymgynghorydd statudol** i tua 9,000 o geisiadau cynllunio'r flwyddyn
- **Rheolwr** 7% o dir Cymru, sy'n cynnwys Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaetholac amddiffynfeydd rhag llifogydd, a rhedeg cyfleusterau hamdden a labordy
- **Partner, addysgwr a galluogwr** sy'n cefnogi a hwyluso gwaith sefydliadau eraill ac yn helpu pobl i ddysgu am yr amgylchedd naturiol ac ynddo
- **Casglwr tystiolaeth** sy'n monitro'r amgylchedd, yn comisiynu a gwneud gwaith ymchwil, yn datblygu gwybodaeth, ac yn cynnal cofnodion cyhoeddus
- **Cyflogwr** bron i 1,800 o staff, yn ogystal â chontractwyr a gwirfoddolwyr

Gellir cael cipolwg ar ehangder ein gwaith yn y fideo yma: [Yr hyn rydym yn ei wneud.](#)

## Cynnwys

<b>Cynnwys</b> .....	<b>3</b>
<b>Rhagair</b> .....	<b>4</b>
<b>Rhan 1</b> .....	<b>6</b>
<b>Croeso</b> .....	<b>6</b>
Cyd-destun ein hamcanion llesiant.....	6
Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2016 .....	8
Ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd (UE).....	8
Ein cynllun corfforaethol hyd at 2022.....	9
Sut mae ein cynllun corfforaethol yn cyd-fynd â'n cynlluniau hirdymor, canolig, a byr ...	10
<b>Rhan 2</b> .....	<b>11</b>
Amcan Llesiant 1:Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy .....	12
Amcan Llesiant 2:Sicrhau bod tir a dŵr yng Nghymru'n cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy ac integredig .....	15
Amcan Llesiant 3:Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau.....	18
Amcan Llesiant 4:Lleihau'r risg i bobl a chymunedau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd.....	20
Amcan Llesiant 5:Helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy boddhaus.....	23
Amcan Llesiant 6:Hyrwyddo busnes llwyddiannus a chyfrifol sy'n defnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi.....	26
Amcan Llesiant 7:Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad rhagorol, sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf .....	29
<b>Rhan 3</b> .....	<b>32</b>
<b>Ein hadnoddau – pobl ac arian</b> .....	<b>32</b>
<b>Monitro perfformiad:dangosyddion, mesurau a thargedau</b> .....	<b>33</b>
<b>Cyfeiriadau</b> .....	<b>35</b>
<b>Rhestr o dermau</b> .....	<b>36</b>

## Rhagair

Mae amgylchedd naturiol Cymru yn rhagorol ac yn ysbrydoledig. Mae'n sylfaen i'n hiechyd, ein llesiant, a'n ffyniant. Mae'n darparu'r aer rydym yn ei anadlu, y dŵr rydym yn ei yfed, a'r bwyd rydym yn ei fwyta. Mae'n rhoi egni a deunyddiau crai. Mae'n hanfodol i'n ffordd o fyw – yn cynnig swyddi, cyfleoedd hamdden ac ymlacio, a lleoliadau deniadol i fyw, gweithio a'u mwynhau. Mae'n rhan o'n diwylliant, ein hanes, a'n dyfodol. Ni allwn fyw hebdo – ond, yn rhy aml o lawer, rydym yn ei gymryd yn ganiataol.

Mae'r buddion a geir gan yr amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn wynebu pwysau o ganlyniad i weithgareddau dynol. Mae bioamrywiaeth yn dirywio. Mae ecosystemau yn dod yn llai gwydn ac yn methu addasu cystal i heriau megis newid yn yr hinsawdd. Eto, gall adnoddau naturiol helpu i fynd i'r afael â nifer o'r problemau yr ydym yn eu hwynebu – gall llifogydd gael eu lliniaru drwy blannu coed, sydd hefyd yn gwella llygredd aer ac yn cynnig mannau gwyrdd i bobl eu mwynhau, a gall priddoedd a reolir yn dda wella ansawdd dŵr, storio carbon, a pharhau i dyfu bwyd. Mae cyfleoedd anferthol i wella bywydau pawb – ond mae hyn ond yn bosibl os yw'r amgylchedd naturiol yn cael ei reoli'n gynaliadwy a'i gydnabod am y buddion y mae'n eu darparu. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer y dyfodol – er mwyn gwella'r amgylchedd naturiol a sicrhau lles cenedlaethau'r dyfodol.

Mae angen newid arnom – a gall pawb wneud hyn drwy fyw a gweithio'n wahanol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn falch o arwain y newid hwn.

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddwyd ein set gyntaf o amcanion llesiant hirdymor [Datganiad Llesiant](#). Mae'r rhain yn adeiladu ar ein [Hadroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol](#) cyntaf a bennodd y llinell sylfaen ac sy'n cysylltu gwydnwch adnoddau naturiol Cymru â llesiant pobl Cymru. Mae'r rhain yn dangos sut mae adnoddau naturiol yn gallu parhau i fod yn fanteisiol i iechyd a lles pobl Cymru yn y dyfodol - os yw'r adnoddau hynny'n cael eu rheoli'n gynaliadwy.

Mae digonedd o heriau o'n blaenau: newid yn yr hinsawdd, ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd, cyni, a phoblogaeth sy'n heneiddio, i enwi ond ambell rai. Gall rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy a sicrhau bod ecosystemau yn wydn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau hyn, ac rydym yn barod i roi hyn ar waith.

Bydd cyflawni ein hamcanion llesiant yn her hirdymor ond mae'n hanfodol ar gyfer y dyfodol. Rydym yn agosáu at ddechrau'r daith: rydym eisoes wedi gwneud cynnydd, ac yn dysgu ar hyd y ffordd. Rydym yn uchelgeisiol o ran yr hyn yr hoffwn ei gyflawni fel Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gefnogi ein staff ein hun a gweithio mewn partneriaeth â phobl eraill ledled Cymru.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn agor pennod newydd gyffrous gyda'r cynllun corfforaethol hwn. Bydd yn cael ei weithredu gan ein prif weithredwr newydd, Clare Pillman, gan adeiladu ar y pum mlynedd gyntaf gyda'n prif weithredwr cyntaf, Emyr Roberts, a chyda Kevin Ingram fel ein prif weithredwr dros dro.

Mae'r cynllun corfforaethol hwn yn amlinellu cam nesaf ein taith. Gobeithio y byddwch yn ystyried ei fod yn ysgogol ac yn uchelgeisiol – ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi tuag at Gymru fwy cynaliadwy a fydd yn rhoi ffyniant i bawb.



Diane McCrea,  
Cadeirydd



Clare Pillman  
Prif Weithredwr



Kevin Ingram,  
Prif Weithredwr  
Dros dro

# Rhan 1

## Croeso

Dyma'r ail gynllun corfforaethol a grëwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ers iddo gael ei sefydlu ym mis Ebrill 2013; mae'n estyn hyd at 2022.

Mae'r cynllun yn adeiladu ar ein [Datganiad Llesiant](#), a gyhoeddwyd yn 2017. Roedd hwn yn disgrifio ein saith amcan llesiant a'r camau y mae angen i ni eu cymryd er mwyn eu cyflawni.

Mae ein hamcanion llesiant fel a ganlyn:

**Amcan Llesiant 1:** Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy

**Amcan Llesiant 2:** Sicrhau bod tir a dŵr yng Nghymru'n cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy ac integredig

**Amcan Llesiant 3:** Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau

**Amcan Llesiant 4:** Lleihau'r risg i bobl a chymunedau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd

**Amcan Llesiant 5:** Helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy boddhaus

**Amcan Llesiant 6:** Hyrwyddo busnes llwyddiannus a chyfrifol sy'n defnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi

**Amcan Llesiant 7:** Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad rhagorol, sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf

## Cyd-destun ein hamcanion llesiant

Mae ein hamcanion llesiant yn arddangos sut yr hoffem gyfrannu at y nodau a amlinellir yn [Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#). Byddwn yn gwneud hyn drwy geisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a chymhwyso ei egwyddorion – sef ein prif ddiben fel yr amlinellir yn [Neddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#).

Mae rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn golygu gofalu am yr holl adnoddau naturiol (sy'n cynnwys aer, dŵr, pridd, bywyd gwyllt, a phrosesau daearegol a hinsoddol) mewn modd, ac ar raddfa, sy'n sicrhau y byddant ar gael yn awr, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd hyn yn gofyn i ni fod yn fwy cydgysylltiedig a rhagweithiol yn ein gwaith, mewn modd sy'n deall ac yn gwerthfawrogi'r amgylchedd naturiol yn well.

Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod gennym amgylchedd naturiol gydag ecosystemau sy'n wydn ac yn gallu ymdopi â newid ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi er eu lles hwy eu hunain, a'r buddion y maent yn eu rhoi i bobl. Trwy sicrhau bod gwytnwch ecosystemau yn cael ei wella, gall yr amgylchedd naturiol a phobl barhau i wireddu'r manteision hyn yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ein hamcanion llesiant, ynghyd â'r camau sydd yn sail iddynt, yn adlewyrchu dogfen Llywodraeth Cymru [Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol](#), sy'n seiliedig ar ei Rhaglen Lywodraethu, [Symud Cymru Ymlaen](#).

Gwnaethom ddatblygu'r amcanion llesiant ar y cyd gyda'n staff a'n rhanddeiliaid, gan fabwysiadu'r pum ffordd o weithio a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Trwy ecosystemau gwydn, ein nod yw creu Cymru sy'n ffyniannus a diogel, yn iach ac egnïol, yn uchelgeisiol ac awyddus i ddysgu, ac yn unedig ac yn gysylltiedig. Mae *sut* mae pethau'n cael eu cyflawni yr un mor bwysig â'r *hyn* a gyflawnir.

Bydd cyflawni saith amcan llesiant Cymru – Cymru sy'n ffyniannus, yn wydn, yn iach, yn fwy cyfartal, â chymunedau cydlynol, â diwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg, ac sy'n gyfrifol yn fyd-eang – yn helpu i greu'r Cymru yr hoffem ei gweld yn y dyfodol, ac yn cyfrannu at un deg saith [Nod Byd-eang ar gyfer Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig 2030](#), a fydd yn helpu i fynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf y gymdeithas ledled y byd.

Yn ogystal â newid yn yr hinsawdd, mae [Fforwm Economaidd y Byd](#) wedi rhestru'r canlynol ymhlith y prif risgiau byd-eang y mae angen eu rheoli:

- Anghydraddoldeb sy'n cynyddu, gan gynnwys mewn gwledydd datblygedig
- Ailadeiladu cymunedau drwy ddwyn cenedlaethau a diwyllionau gwahanol ynghyd
- Patrymau gwaith sy'n newid o ganlyniad i ddatblygiadau technolegol
- Cryfhau cydweithrediadau byd-eang

Wrth gwrs, mae'r rhain i gyd yn berthnasol i Gymru. Bydd ein hamcanion llesiant yn galluogi'r amgylchedd naturiol yng Nghymru i helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn ar raddfa leol, genedlaethol a rhyngwladol. A thrwy wella gwydnwch ein hecosystemau a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gall pobl barhau i fanteisio ar yr hyn maent yn eu cynnig.

Mae [Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru](#) yn amlinellu tri o'r heriau allweddol o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru:

- Gwella cydnherthedd ecosystemau
- Mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a'r dirywiad mewn bioamrywiaeth
- Ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd

Mae hefyd wedi tynnu sylw at dair blaenoriaeth genedlaethol lle y gall rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy helpu i gyflawni buddion sylweddol:

- Cynnig atebion sy'n seiliedig ar natur, megis y rhai a awgrymir yn yr Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol
- Cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon
- Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar le – gweithio'n lleol mewn ffordd gydgyssylltiedig

Mae ymateb i'r heriau hyn a gweithio gyda'r blaenoriaethau yn weladwy drwy'r cynllun corfforaethol hwn – o ran ein dull o weithio a sut yr ydym yn ailstrwythuro er mwyn hwyluso gwell darpariaeth.

Bydd ein cynllun corfforaethol hefyd yn helpu i wireddu'r prif gyfleoedd sy'n gysylltiedig ag adnoddau naturiol fel yr amlinellir yn y Polisi ar Adnoddau Naturiol:

- Cefnogi cymunedau mwy llwyddiannus a chynaliadwy
- Hyrwyddo twf ac arloesedd gwyrdd i greu swyddi cynaliadwy
- Cefnogi economi fwy effeithlon o ran adnoddau
- Cynnal lles pobl Cymru

## Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2016

Ein [Hadroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol](#) 2016 oedd y cyntaf o'i fath. Roedd yn amlinellu cyflwr adnoddau naturiol y wlad ac yn asesu i ba raddau yr oeddent yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.

Ac – yn unigryw – roedd yn cysylltu gwydnwch adnoddau naturiol Cymru â llesiant pobl Cymru.

Mae'r Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol yn awgrymu enghreifftiau o atebion sy'n seiliedig ar natur y dylid canolbwyntio arnynt i helpu i gyflawni nid yn unig rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol, ond hefyd y buddion gorau posibl i bobl, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Maent fel a ganlyn:

- Mwy o seilwaith gwyrdd – coed a mannau gwyrdd, yn enwedig mewn ardaloedd trefol
- Mwy o orchudd coetir a mwy o goetiroedd o dan reolaeth
- Rheoli'r parth arfordirol
- Gweithio o fewn dalgylchoedd dŵr cyfan
- Rheoli pridd yn well
- Defnydd gwell o'r ucheldiroedd
- Rheolaeth integredig o ecosystemau morol

Mae'r holl ddulliau hyn yn dod â buddion lluosog i bobl – gall mwy o seilwaith gwyrdd mewn ardaloedd trefol, er enghraifft, helpu i leihau llygredd a llifogydd lleol a chynnig cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden i bobl wrth garreg eu drws, gan wella iechyd ac, mewn rhai achosion, cynnig swyddi.

## Ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd (UE)

Mae llawer o'r polisïau, y ddeddfwriaeth, a'r arian sy'n cefnogi adnoddau naturiol yn dod o'r UE. Mae hyn yn cynnwys arian ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol ac arian LIFE i gefnogi prosiectau amgylcheddol, cadwraeth natur a newid yn yr hinsawdd ledled yr UE. Gan fod llawer o gyfarwydddebau'r UE yn pennu'r safonau ac yn llywio llawer o'n gwaith, a'r ffaith y bydd llawer o faterion amgylcheddol yn croesi ffiniau gwleidyddol a bydd angen cydweithrediad cenedlaethol a rhyngwladol arnynt, mae'r heriau a'r cyfleoedd yn dilyn Brexit yn arbennig o arwyddocaol o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r heriau a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd, gan ddylanwadu ar yr opsiynau gorau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy a helpu i'w datblygu. Mae hyn yn cynnwys safonau a rheoliadau yn ymwneud ag ansawdd aer a dŵr a gwastraff, er enghraifft, yn ogystal â chynnig cyngor, cymorth ariannol a'r cynllun amgylcheddol cywir i ffermwr, coedwigwyr, diwydiant, a rheolwyr tir a dŵr eraill. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr amgylchedd naturiol a'i ecosystemau yn wydn ac yn gallu cynnig y buddion gorau i bobl, yn awr ac yn y dyfodol.

Mae hyn yn thema reolaidd drwy'r cynllun corfforaethol ac mae'n hanfodol o ran cyflawni pob un o'n hamcanion llesiant.



## Ein cynllun corfforaethol hyd at 2022

Bydd y cynllun corfforaethol hwn, sy'n ein cymryd hyd at 2022, yn ddeinamig ac yn esblygu. Caiff ei ddiweddarau'n rheolaidd wrth i wybodaeth newydd ddod i law, gan gynnwys, er enghraifft, y cynlluniau llesiant a fydd yn cael eu llunio gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn 2018, ein datganiadau ardal ein hun erbyn 2020, Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol II ym mis Rhagfyr 2020, ac wrth i ni adolygu a diweddarau ein hamcanion llesiant.

Bydd sawl darn allweddol o waith yn cael ei gynnal yn ystod y cyfnod cynllunio corfforaethol hwn er mwyn ein rhoi ar y trywydd iawn tuag at gyflawni ein hamcanion llesiant:

- Datblygu gweledigaeth fanwl, hirdymor a rennir ar gyfer yr amgylchedd naturiol hyd at 2050 gyda'n staff a'n rhanddeiliaid yn ystod 2018/19, a sut y byddwn yn mesur cynnydd tuag ati. Mae ein hamcanion llesiant yn hirdymor fel mater o reidrwydd ac ni ellir eu cyflawni yn ystod oes y cynllun corfforaethol hwn.
- Datblygu datganiadau ardal gyda'n staff a'n rhanddeiliaid, sy'n cwmpasu chwech o ardaloedd rhanbarthol Cymru ac un ar gyfer yr amgylchedd morol. Mae'r rhain yn gynlluniau lleol sy'n amlinellu'r heriau a'r cyfleoedd i adnoddau naturiol fod yn fuddiol i bobl mewn ardaloedd lleol. Byddant yn sail i'n holl waith, maent yn hanfodol o ran llywio'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus, a byddant yn cynnig cyfleoedd i bawb weithredu. Byddant yn cael eu cysylltu â'r [Fframwaith Datblygu Cenedlaethol](#).
- Ymgorffori ein diben – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy – ar draws ein holl waith, a sicrhau bod Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi'i sefydlu hefyd, gan helpu cyrff cyhoeddus eraill i wneud yr un peth.
- Cefnogi'r gwaith o weithredu Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru drwy ddatganiadau ardal i helpu i wireddu'r blaenoriaethau cenedlaethol.
- Cynhyrchu'r Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol II erbyn 2020, gan adeiladu ar linell sylfaen yr Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol a gyhoeddwyd yn 2016.
- Cydweithio, fel un o'r pedwar aelod statudol, ar bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, i sicrhau bod gwella gwydnwch ecosystemau a'r buddion o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cael eu cydnabod a'u hoptimeiddio o fewn cynlluniau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gyfuno ac integreiddio gwaith yr holl aelodau o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Ailddylunio trefn Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn caniatáu iddo weithredu ar ei orau yn y dyfodol, a chefnogi a gwrando ar aelodau staff Cyfoeth Naturiol Cymru drwy'r heriau hyn.

## Sut mae ein cynllun corfforaethol yn cyd-fynd â'n cynlluniau hirdymor, canolig, a byr

Unwaith y caiff ei datblygu, y weledigaeth a rennir ar gyfer yr amgylchedd naturiol hyd at 2050 fydd ein cynllun hirdymor, gyda'r cynllun corfforaethol yn gweithredu fel ein cynllun tymor canolig ein hun, a fydd yn cael ei gyflwyno trwy gynlluniau busnes blynyddol tymor byr olynol. Byddwn yn monitro cynnydd drwy set o ddangosyddion hirdymor, gan edrych ar dueddiadau yng Nghymru yn ei chyfanrwydd, ynghyd â mesurau perfformiad tymor canolig a thargedau blynyddol tymor byr i fonitro ein cyfraniad ein hun at y weledigaeth hirdymor.

	<b>Hirdymor</b>	<b>Tymor canolig</b>	<b>Tymor byr</b>
<b>Cynllun</b>	Gweledigaeth a Rennir hyd at 2050	Cynllun Corfforaethol	Cynllun Busnes
<b>Hyd</b>	20–25 blynedd	3–5 blynedd	1 flwyddyn
<b>Monitro</b>	Dangosyddion sy'n dangos newidiadau yng Nghymru o ganlyniad i weithgaredd gan yr holl sefydliadau ac unigolion yng Nghymru yn ei chyfanrwydd	Mesurau perfformiad tymor canolig 3–5 mlynedd ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru – dangosfwrdd ein cynllun corfforaethol	Targedau blynyddol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru – dangosfwrdd ein cynllun busnes

Dyma ein cynlluniau lefel uchaf – oddi tanynt bydd y cynlluniau gweithredu – er enghraifft ein cynlluniau adnoddau naturiol hirdymor, cynlluniau gwasanaeth tymor canolig a gwaith tymor byrrach a'r cynlluniau prosiect.

Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo. Awgrymir rhai o'r dangosyddion hirdymor yr ydym yn bwriadu eu defnyddio o dan bob amcan llesiant. Rydym hefyd yn datblygu ein mesurau perfformiad tymor canolig a'n targedau blynyddol. Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2018 ynghyd â'n Cynllun Corfforaethol 2018/19

Tra bydd y gwaith monitro ar gyfer y weledigaeth a rennir yn y tymor hir yn seiliedig ar ddangosyddion sy'n edrych ar dueddiadau a gweithgarwch gan sefydliadau ac unigolion ledled Cymru, bydd y gwaith monitro ar gyfer y cynllun corfforaethol a'r cynllun busnes blynyddol yn seiliedig ar fesurau perfformiad a thargedau sy'n asesu gweithgaredd Cyfoeth Naturiol Cymru ei hun i fonitro ein cyfraniad at y darlun ehangach. Gyda'i gilydd, mae hyn yn ffurfio ein fframwaith perfformiad.

## Rhan 2

Yma byddwn yn ystyried pob un o'n hamcanion llesiant yn ei dro. Bydd angen gweithio'n integredig ac ar y cyd ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, a chyda unigolion hefyd, er mwyn eu cyflawni.

O ran pob amcan llesiant, byddwn yn esbonio:

- Lle rydym ar hyn o bryd – y sefyllfa bresennol yng Nghymru
- Lle ydym ni am fod yn yr hirdymor – o ran Cymru ac o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru  
Mae hyn yn edrych 20–25 o flynyddoedd i'r dyfodol a thu hwnt i gyfnod y cynllun corfforaethol hwn
- Yr hyn y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud hyd at 2022 i helpu i wneud hyn ddigwydd – enghreifftiau o'r camau y byddwn yn eu cymryd dros gyfnod y cynllun corfforaethol hwn i wneud cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion llesiant

Rydym hefyd wedi cynnwys rhai o'r dangosyddion hirdymor y bwriadwn eu defnyddio i fonitro'r hyn sydd wedi newid ar lefel Cymru gyfan. Maent wedi'u seilio ar ffynonellau data, gan gynnwys dangosyddion cenedlaethol Llywodraeth Cymru a'r Arolwg Cenedlaethol – defnyddiwn y ddau ohonynt fel ein man cychwyn. Byddant yn esblygu wrth i ni ddatblygu ein gwaith.

Cyhoeddir ein set o fesurau perfformiad tymor canolig ym mis Ebrill 2018, ynghyd â'n cynllun busnes a'n targedau blynyddol.

# 1

## Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy



“Mae pobl yn dweud; pam ydych chi'n mwynhau'r math hwn o swydd? Mae'n ymwneud â chael y data hirdymor y gallaf edrych arno a dweud mae ni wnaeth hwn ...

Phil Newman  
Uwch Swyddog  
Cadwraeth Morol

## Amcan Llesiant 1: Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy

### Ble'r ydym yn awr?

Mae Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) yn dweud wrthym nad yw'r dull cyfredol o reoli adnoddau naturiol yng Nghymru yn gynaliadwy – mae ein hadnoddau naturiol allweddol yn cael eu difetha yn gyflymach nag y gellir eu hailgyflenwi. Mae bioamrywiaeth yn dirywio ac nid yw'n bosibl dweud bod gan yr un ecosystem yng Nghymru holl nodweddion gwydnwch. Yn y blynyddoedd diweddar, mae ansawdd dŵr wedi gwella – ond mae llawer o waith i'w wneud eto nes y bydd statws ecolegol da gan yr holl gyrff dŵr croyw yng Nghymru. Ac er bod ansawdd aer wedi gwella, allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi disgyn, a'r egni adnewyddadwy a gynhyrchir wedi cynyddu, mae llygredd aer yn parhau i fod yn broblem iechyd sylweddol.<sup>1</sup>

Cyfrifwyd bod ôl troed ecolegol Cymru bum gwaith yn fwy na maint gwirioneddol y wlad. Mae hyn yn golygu bod angen arwynebedd tir pum gwaith yn fwy na maint Cymru er mwyn darparu'r deunyddiau crai, yr ynni a'r bwyd i gyflenwi Cymru ar hyn o bryd ac i waredu ar y llygredd a'r gwastraff sy'n cael eu creu.<sup>1</sup>

Mae pobl yn dangos eu bod yn pryderu am yr amgylchedd naturiol: mae 67% o bobl yng Nghymru yn poeni am newid yn yr hinsawdd, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn ei briodoli i weithgaredd dynol,<sup>1</sup> ac mae 43% o bobl yn poeni am newidiadau i fioamrywiaeth yn y dyfodol.<sup>2</sup> Hefyd, mae 3% o bobl wedi gwirfoddoli i helpu i amddiffyn yr amgylchedd.<sup>1</sup> Ond mae llawer i'w wneud o hyd.

Drwy reolaeth gynaliadwy, byddai pobl a busnesau yn elwa'n fwy ar adnoddau naturiol nag y maent eisoes hyd yn oed – bwyd, swyddi, hamdden, deunyddiau crai, ynni, ac aer a dŵr glân. Mae hyn cyhyd â bod pawb yng Nghymru yn manteisio ar y cyfleoedd ac yn deall yr angen i wneud rhai pethau yn wahanol yn y dyfodol – i fyw a gweithio'n fwy cynaliadwy.

Byddwn ni yn Cyfoeth Naturiol Cymru yn hyrwyddo'r amgylchedd naturiol ac yn helpu pobl i fanteisio i'r eithaf ar y buddion y mae'n eu darparu, yn ogystal â'i werthfawrogi er ei fwyn ei hun – yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Ble ydym ni am fod yn yr hirdymor?

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei gydnabod fel hyrwyddwr yr amgylchedd naturiol yng Nghymru, ac yn arweinydd byd-eang yn ei faes. Bydd gennym lais cryf a barn annibynnol, a bydd ein safbwyntiau yn cael eu parchu yng Nghymru a ledled y byd. Byddwn yn dod â phobl at ei gilydd o ran blaenoriaethau a rennir ac yn cyfeirio arian i'r manau lle y bydd yn gallu cyflawni'r canlyniadau gorau yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael. Ein bod ni'n sefydliad sy'n seilio ein gwaith ar dystiolaeth, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, gan gynnal gweithrediadau, rhoi cyngor, a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael. Bydd ein tystiolaeth yn cael ei rhannu â phobl eraill, a byddant yn rhannu'r hyn sydd ganddynt, i greu darlun mor gyflawn â phosibl o Gymru.

Byddwn yn arwain drwy wneud ac arfer yr hyn rydym yn ei bregethu, gan arddangos sut mae rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn gweithio ar y tir a'r dŵr a reolir gennym. Ar

yr un pryd, byddwn yn rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o wneud pethau, ac yn dysgu gan eraill wrth fynd ymlaen – yn lleol, yn genedlaethol, ac yn rhyngwladol – ac yn annog pobl eraill i wneud yr un peth.

Byddwn yn annog newidiadau mewn ymddygiad ynghyd â'r ffyrdd y mae pawb yn gweithredu yng Nghymru – ac yn mwynhau'r buddion – drwy gynyddu dealltwriaeth o bwysigrwydd yr amgylchedd naturiol mewn bywydau pobl o ddydd i ddydd. Byddwn yn ystyried costau cylch bywyd llawn prosiectau – ar gyfer deunyddiau crai, costau cynnal, ac ailgylchu neu waredu – gan gynnwys y gost i'r amgylchedd. Byddwn yn dwyn i gyfrif y rhai sy'n achosi difrod i'r amgylchedd, pan nad yw anogaeth wedi llwyddo ac mae angen gorfodi. Byddwn yn arwain ac yn parhau i leihau ein heffaith amgylcheddol ein hun, fel sefydliad carbon positif.

Rydym yn dymuno i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy fod yn sylfaen hanfodol o ran yr *holl* benderfyniadau a wneir yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Hoffem weld hefyd fod niwed i'r amgylchedd naturiol yn cael ei osgoi, a sicrhau bod gwneud y gorau o'r buddion cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol yn dod yn arfer.

## Beth fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud hyd at 2022 i helpu i wneud hyn ddigwydd?

### Arwain drwy esiampl

- Datblygu gweledigaeth a rennir fanwl ar gyfer amgylchedd naturiol Cymru ac o ran sut y bydd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn edrych erbyn 2050, gan gynnwys cerrig milltir ar hyd y ffordd.
- Sicrhau bod popeth a wneir gennym yn amlygu rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol Cymru ac yn tynnu sylw at y buddion a'r cyfleoedd a ddarperir gan yr amgylchedd naturiol.
- Ymgorffori rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ein holl waith, ar draws ein sefydliad, ac ysbrydoli eraill i wneud yr un peth. Gwrando ar, a deall, anghenion sydd gan y sectorau eraill o'r amgylchedd naturiol, a'u hannog i gysylltu eu hanghenion â'r hyn sy'n gynaliadwy.
- Datblygu ein sail dystiolaeth a strategaeth dystiolaeth newydd i Cyfoeth Naturiol Cymru i ddanategu rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, yn gysylltiedig â'r Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol a chynlluniau presennol megis [Cynllun Adfer Natur Cymru](#), gan gryfhau'r dystiolaeth a nodi bylchau.

### Gweithio gyda'n partneriaid

- Cynhyrchu saith datganiad ardal ar y cyd, a fydd yn caniatáu i'r Polisi Adnoddau Naturiol gael ei weithredu'n lleol, gan arddangos y manteision o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd y set gyntaf yn cael ei chyhoeddi erbyn 2020, ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Bydd gweithgareddau'n cael eu targedu lle mae'r budd mwyaf i'w gael ar gyfer pobl a'r amgylchedd naturiol.
- Parhau gyda'n swyddogaeth weithredol ar bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws Cymru, gan helpu i greu'r set gyntaf o gynlluniau llesiant erbyn mis Mawrth 2018. Byddwn yn sicrhau bod y tair her allweddol a'r tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol yn cael eu hymgorffori, ac yn cynnig tystiolaeth leol drwy'r datganiadau ardal.

- Byddwn yn sicrhau bod pawb yn deall pwysigrwydd yr amgylchedd naturiol a'r gwahaniaeth y mae ei reoli'n gynaliadwy yn gallu ei wneud i fywydau pobl er mwyn dylanwadu ar benderfyniadau ac ymddygiad.
- Dysgu o arferion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy da ledled y byd a chymhwyso'r rhain i'n gwaith.
- Gweithio gyda'n partneriaid lleol ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i helpu i gyflawni'r cynlluniau llesiant.
- Gweithio gyda sefydliadau academiaidd i edrych ar effaith technolegau sy'n dod i'r amlwg. a dulliau o gynhyrchu tystiolaeth a helpu i newid ymddygiad.
- Rhannu ein data a'n tystiolaeth â phobl eraill, a gwneud y defnydd gorau o'u gwybodaeth.
- Llenwi'r blychau o ran yr anghenion tystiolaeth a nodir yn Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2016.
- Cyflawni anghenion tystiolaeth [Cynllun Adfer Natur Cymru](#) drwy weithio gyda'n partneriaid bioamrywiaeth.
- Cyfrannu at waith Llywodraeth Cymru i ddiwygio Strategaeth Gwyddoniaeth y Môr y DU.
- Arwain ar wireddu'r uchelgais y bydd sector cyhoeddus Cymru yn garbon niwtral erbyn 2030 drwy ein [prosiect Carbon Bositif](#).

## Dangosyddion Cymru:Sut y byddwn ni'n gwybod a oes unrhyw beth wedi newid?

### Dangosydd/Ffynhonnell

- Ôl troed ecolegol Cymru – Dangosydd Cenedlaethol Llywodraeth Cymru<sup>3</sup>
- Pryder pobl o ran newid yn yr hinsawdd – Dangosydd Cenedlaethol Llywodraeth Cymru<sup>3</sup>
- Dealltwriaeth a gwerthfawrogiad pobl o'r budd yr ydym yn ei gael gan adnoddau naturiol – Arolwg Cenedlaethol Cymru<sup>4</sup>

## 2 Sicrhau bod tir a dŵr yng Nghymru'n cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy ac integredig



“ Mae coed a choetir yn fy ysbrydoli. Maent yn rhan o'n tirwedd a'n treftadaeth. Mae ein gwaith yn creu manteision heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol gyda lleoedd i weithio, chwarae ac ymlacio yn ogystal â chynnig cynefin gwerthfawr i lawer o'r ywogaethau.

Rachel Chamberlain  
Arweinydd Tîm Cynllunio Coedwig



## Amcan Llesiant 2: Sicrhau bod tir a dŵr yng Nghymru'n cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy ac integredig

### Ble'r ydym yn awr?

Mae tua 90% o dir Cymru yn cael ei ddefnyddio naill ai ar gyfer amaethyddiaeth neu goedwigaeth,<sup>5</sup> tra bo amgylchedd y môr yn cynrychioli 41% o dir Cymru,<sup>6</sup> gan estyn hyd at 12 morfilltir.<sup>1</sup>

Nid yw'r tir a'r dŵr (gan gynnwys y rhan forol) yn cael eu rheoli mewn modd integredig ar hyn o bryd, ac er bod ansawdd y dŵr a'r aer wedi gwella mewn ambell achos dros y blynyddoedd diweddar, mae ffordd bell i fynd eto cyn i ni fod yn rheoli holl dir a dyfroedd Cymru yn gynaliadwy. Er enghraifft:

- Dim ond un o ddyfroedd ymdrochi dynodedig Cymru a lwyddodd i fodloni'r safonau a bennir gan y Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi yn 2016.<sup>1</sup> Fodd bynnag, methodd 63% o gyrff dŵr croiw i gyflawni statws cyffredinol da neu well yn 2015 fel y diffinnir gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.<sup>1</sup> Mae llygryddion o fwyngloddiau metel segur yn effeithio ar 700 cilomedr (bron i 435 milltir) o afonydd Cymru: mae naw o'r dalgylchoedd sydd wedi'u llygru fwyaf gan fetel yn y DU yng Nghymru.<sup>7</sup>
- Mae ansawdd aer wedi gwella'n gyffredinol ers yr 1970au. Fodd bynnag, mae nitrogen deuocsid a mater gronynnol yn peri perygl iechyd cyhoeddus sylweddol, yn enwedig mewn ardaloedd trefol ac wrth ymyl ffyrdd mawr.<sup>1</sup> Mae llygredd aer yn effeithio'n negyddol ar dros 74% o gynefinoedd Cymru.<sup>8</sup>
- Mae ansawdd pridd wedi gwella ychydig mewn coetiroedd ac wedi adfer ychydig mewn mawndiroedd, ac mae'n parhau i fod yn gymharol sefydlog o ran defnyddiau tir eraill. Mae priddoedd Cymru'n storio oddeutu 410 miliwn tonn o garbon.<sup>1</sup>
- Mae ardal y coetir yng Nghymru yn 306,000 hectar (tua 756,000 erw), sy'n cynnwys 156,000 hectar (tua 385,000 erw) o goed llydanddail a 150,000 hectar (tua 371,000 erw) o gonwydd. Er bod plannu newydd wedi cynyddu rhwng 2009 a 2014, gostyngodd y gyfradd yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2016.<sup>9</sup>

### Ble ydym ni am fod yn yr hirdymor?

Bydd tir a dŵr Cymru yn cael eu rheoli mewn ffordd sydd wedi'i hintegreiddio'n llawn er mwyn ennill buddion lluosog. Bydd hyn yn cael ei ystyried fel yr hyn sy'n arferol, gyda defnyddiau gwahanol – ar gyfer ffermio, goedwigaeth, pysgodfeydd a'r amgylchedd trefol – yn cael eu hystyried mewn modd holistaidd.

Bydd dalgylchoedd dŵr yn cael eu hystyried yn eu cyfanrwydd, gan gynnwys dŵr wyneb a dŵr daear, ac o'u tarddiad i'r môr. Bydd ansawdd a lefelau dŵr (llifogydd a sychder), ac ansawdd aer, wedi gwella, er budd pobl ac ecosystemau hefyd, a byddwn yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau dŵr fel yr amlinellir yn Strategaeth Dŵr i Gymru Llywodraeth Cymru.<sup>10</sup> Bydd priddoedd wedi cael eu diogelu fel y gallant storio carbon, rheoli draeniad, ailgylchu deunyddiau 'gwastraff' – a pharhau i fod yn gynhyrchiol. Bydd ecosystemau yn fwy gwydn – a bydd tiffeddianwyr a busnesau yn mabwysiadu dull ar y cyd o ran cynaliadwyedd ac yn cael eu cefnogi i wneud hynny.

Bydd mwy o fannau gwyrdd hygyrch a rhagor o seilwaith gwyrdd yn ein hardaloedd trefol ac o'u hamgylch. Bydd y gorchudd coetir wedi cynyddu'n sylweddol, gyda mwy o goetir yn

cael ei blannu a rhagor o goetiroedd yn cael eu rheoli. Bydd rhywogaethau a chynefinoedd nodedig yn cael eu gwerthfawrogi ac yn adfer. Mae'r blaenoriaethau cenedlaethol a nodir yn y Polisi Adnoddau Naturiol yn sylfaenol, a bydd enghreifftiau o atebion sy'n seiliedig ar natur, wedi'u llywio gan yr Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol, wedi cael eu troi'n weithredoedd ymarferol ar lawr gwlad, ac wedi'u gweithredu ar y raddfa fwyaf priodol.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei ystyried fel eiriolwr ar gyfer y buddion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y gall rheoli tir a dŵr yn integredig eu darparu, yn ogystal â'r buddion amgylcheddol. Byddwn yn gweithredu'r dull hwn yn ymarferol ar y tir a'r dŵr rydym yn eu rheoli ein hun.

## Beth fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud hyd at 2022 i helpu i wneud hyn ddigwydd?

### Arwain drwy esiampl

- Arddangos rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ymarferol ar y 7% o dir a dŵr Cymru yr ydym yn ei reoli ein hun, gan gynnwys Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, Ystad Goed Llywodraeth Cymru, a'n hamddiffynfeydd llifogydd –monitro ac adrodd ar effeithiolrwydd ein dulliau.
- Rhoi cynnig ar ddulliau newydd o reoli tir a dŵr, gan ddefnyddio ein pwerau arbrofol newydd a monitro'r canlyniadau.
- Cwblhau'r adolygiad o Ystad Goed Llywodraeth Cymru a dechrau rhoi'r canfyddiadau ar waith.
- Ailstocio oddeutu 1,800 hectar (tua 4,450 erw) o Ystad Goed Llywodraeth Cymru bob blwyddyn gyda rhywogaethau conifer a llydanddail cymysg.
- Cyflwyno rhaglen blannu gydadferol i ailosod coetiroedd a ddinistriwyd. Mae cynyddu'r gorchudd coetir a dod â rhagor o goetiroedd o dan reolaeth yn flaenoriaeth yn yr Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol a'r Polisi Adnoddau Naturiol hefyd.
- Datblygu strategaeth rheoli risg newid yn yr hinsawdd ar gyfer y tir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, gyda sylfaen dystiolaeth gysylltiedig.
- Sicrhau bod ein gwasanaethau rheoleiddio – trwyddedu, cydymffurfiaeth a gorfodi – yn cefnogi dull rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

### Gweithio gyda'n partneriaid

- Gweithio mewn partneriaeth â busnesau, diwydiannau a thirfeddianwyr – yn enwedig yn y sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth – i annog dull rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar y tir a'r dŵr nad ydym yn eu rheoli ein hun – i sicrhau bod gwydnwch ecosystemau yn cael ei wella a bod y buddion i bobl Cymru yn cael eu hoptimeiddio.
- Ynghyd â Llywodraeth Cymru, dylanwadu ar ddyluniad a'r defnydd dilynol o'r cynllun datblygu gwledig ar ôl Brexit, ei gynllun amgylcheddol, a'r gwaith monitro a modelu sy'n ymwneud ag ef.
- Gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i ddatblygu seilwaith gwyrdd, gan gynnwys plannu coetiroedd, yn enwedig mewn ardaloedd trefol.
- Cefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r Cynllun Morol a'r Rhaglen Newid Morol.
- Cefnogi Llywodraeth Cymru wrth iddo ddatblygu ei Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

- Sicrhau bod statws ecolegol da gan gyrff dŵr erbyn 2027 yn unol â Chyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE.
- Mynd i'r afael â llygredd o fwyngloddiau metel segur i helpu i adfer 700 cilomedr (435 milltir) o afonydd yr effeithir arnynt i statws ecolegol da.
- Datblygu system trwyddedu tynnu dŵr ddiwygiedig a chynaliadwy, a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod dalgylchoedd dŵr wyneb a dŵr daear yn gallu ymdopi â llifoedd uchel ac isel yn ystod cyfnodau o lifogydd a sychder.
- Helpu cwmnïau dŵr i ddatblygu eu cynlluniau buddsoddi tymor hir.
- Cefnogi partneriaethau Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ac awdurdodau parciau cenedlaethol, sy'n estyn dros 25% o dir Cymru.

## Dangosyddion Cymru: Sut y byddwn ni'n gwybod a oes unrhyw beth wedi newid?

### Dangosydd/Ffynhonnell

- Ansawdd dŵr yng Nghymru – Dangosydd Cenedlaethol<sup>3</sup>
- Gorchudd coed (rheolaeth gynaliadwy yng Nghymru) – data Cyfoeth Naturiol Cymru /Llywodraeth Cymru<sup>9</sup>
- Camau unigol a gymerir gan bobl i amddiffyn yr amgylchedd – Arolwg Cenedlaethol<sup>4</sup>

# 3 Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau



“ Mae cael y cyfle i ofalu am gynefinoedd a gweithio gyda thirfeddianwyr i geisio gwella eu cyflwr fel eu bod nhw o’r safon uchaf bosib yn anhygoel

Rhodri Dafydd  
Uwch Reolwr Gwarchodfeydd

## Amcan Llesiant 3:Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau

### Ble'r ydym yn awr?

Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol wedi nodi nad oes yr un ecosystem yng Nghymru sydd â gwydnwch da ar hyn o bryd ac ni fydd llawer ohonynt yn ddigon hyblyg i wynebu newid yn yr hinsawdd a phwysau eraill.

Ar y cyfan, mae bioamrywiaeth yn dirywio yng Nghymru. Mae ehangder rhai cynefinoedd wedi dirywio'n sylweddol, ac mae'r cysylltedd rhwng cynefinoedd wedi gostwng hefyd.<sup>11</sup> Mae cyflwr ein hecosystemau yn gymysg, yn ôl y cynefin penodol: canfuwyd bod 55% o rywogaethau a 75% o nodweddion cynefinoedd ar safleoedd Natura 2000 mewn cyflwr anffafriol.<sup>11</sup>

Mae'r materion sy'n effeithio ar safleoedd bywyd gwyllt gwarchoddedig yn cynnwys pori a rheoli da byw amhriodol, rheoli coetiroedd mewn modd amhriodol, newidiadau mewn lefelau dŵr, darnio cynefinoedd, a datblygiadau diwydiannol neu ddatblygiadau eraill. Mae ansawdd aer gwael yn ffactor hefyd – mae dros 74% o gynefinoedd Cymru yn cael eu niweidio o ganlyniad i lygredd aer.<sup>8</sup>

### Ble ydym ni am fod yn yr hirdymor?

Bydd ecosystemau Cymru yn fwy gwydn, ac yn cynnig rhagor o fudd i bobl. Byddant yn gallu ymdopi'n well gydag aflonyddwch – naill ai drwy eu gwrthsefyll, adfer ar ôl iddynt ddigwydd, neu ymaddasu â hwy. Bydd y golled bioamrywiaeth net wedi cael ei gwrthdroi. Bydd gan ecosystemau amrywiaeth a chysylltedd gwell, a bydd safleoedd gwarchoddedig wedi'u trefnu ac yn cael eu rheoli fel rhwydwaith cydlynol yn rhan o amgylchedd naturiol ehangach Cymru.

Bydd Talu am Wasanaethau Ecosystemau wedi cael ei sefydlu fel rhan o'r ffordd rydym yn gweithredu yng Nghymru, a bydd y buddion a ddaw o ganlyniad i ecosystemau wedi'u deall yn helaeth. Bydd atebion sy'n seiliedig ar natur, gan wneud y gorau o'r cysylltiadau rhwng gwydnwch a lles ecosystemau, wedi'u deall, eu gwerthfawrogi, a'u gweithredu.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi chwarae rhan allweddol wrth gyflawni Cynllun Adfer Natur Cymru, gan weithio gyda chyrrff cyhoeddus eraill a'r sectorau preifat a gwirfoddol. Bydd y gwaith o reoli ein tir a'n dŵr ein hun yn amlygu gwydnwch a chysylltedd ecosystemau.

### Beth fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud hyd at 2022 i helpu i wneud hyn ddigwydd?

#### Arwain drwy esiampl

- Sicrhau ein bod yn ystyried gwydnwch bioamrywiaeth ac ecosystemau mewn perthynas â'n holl swyddogaethau a gweithgareddau a'r penderfyniadau a wneir gennym.
- Adolygu safleoedd gwarchoddedig i sicrhau bod y rhwydwaith cywir ar gyfer gwydnwch ecosystemau ar waith gennym, fel ffordd o ddiogelu'r manau o

fioamrywiaeth orau a dull allweddol ar gyfer hyrwyddo rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

- Adfer y safleoedd gwarchodedig a reolir gennym tuag at gyflawni cyflwr ffafriol, a chymryd camau ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd sydd wedi'u blaenoriaethu ar y tir a'r dŵr yr ydym yn eu rheoli.
- Rheoli hyd at 2,900 hectar (tua 7,200 erw) o safleoedd coetir hynafol trwy gael gwared ar fygythiadau, a rheoli o leiaf 2,000 hectar (tua 4,500 erw) o Blanhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol tuag at adferiad ar y tir a reolir gennym.
- Rheoli coetiroedd tuag at gynefin agored mewn ardaloedd lle nad oedd plannu'n briodol yn y gorffennol, er enghraifft ar fawn dwfn.
- Atal, canfod a rheoli rhywogaethau goresgynnol estron, plâu a chlefydau ar y tir a'r dŵr a reolir gennym, ac ar dir arall mewn rhai achosion – er enghraifft, ar gyfer efwr enfawr (*Heracleum mantegazzianum*) a *Phytophthora ramorum* – lle mae rhywogaethau wedi cael effaith negyddol eang ar yr economi, yr amgylchedd, ac iechyd pobl.

### Gweithio gyda'n partneriaid

- Gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chyrrff sector cyhoeddus eraill gan ddefnyddio datganiadau ardal fel sylfaen, i'w helpu i gyflawni eu dyletswyddau bioamrywiaeth, gan ysbrydoli pobl eraill a rhoi pobl wrth wraidd yr hyn y gall natur ei wneud ar eu cyfer.
- Gweithio gyda Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a phartneriaid eraill i gyflawni Cynllun Adfer Natur Cymru.
- Cydweithio â thirfeddianwyr a rheolwyr tir i greu dull integredig strategol ar gyfer rheoli tir a dŵr, gan ganolbwyntio ar reoli safleoedd gwarchodedig tuag at gyflawni cyflwr ffafriol a'u gwerthfawrogi fel rhan o rwydwaith ehangach ac elfen hanfodol o'r amgylchedd naturiol.
- Gweithio gyda phartneriaid allweddol i wella cynefinoedd afonydd, casglu tystiolaeth a chwilio am nawdd i gasglu, blaenoriaethu a gweithredu Cynlluniau Adfer Afonydd, gan weithio tuag at ddarparu'r cynefinoedd afonydd gorau ar gyfer pysgod a sefydlu'r eog fel rhywogaeth eiconig sy'n dangos ansawdd cynefinoedd ledled Cymru.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynigion ar gyfer Talu am Wasanaethau Ecosystemau.
- Gwellu gwydnwch ecosystemau morol fel rhan o rwydwaith a gweithgareddau'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig o dan y [Prosiect Gwellu Cyflwr Ardaloedd Morol Gwarchodedig](#) a'r [prosiect Asesu Pysgodfeydd Cymru](#). Cefnogi [Rhaglen Newid Morol Llywodraeth Cymru](#).
- Sicrhau bod gennym y sylfaen dystiolaeth sydd ei hangen arnom, a gweithio gyda phobl eraill megis y sector gwirfoddol a'r Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur i fesur y newidiadau.

### Dangosyddion Cymru: Sut y byddwn ni'n gwybod a oes unrhyw beth wedi newid?

#### Dangosydd/Ffynhonnell

- Ecosystemau iach – Dangosydd Cenedlaethol<sup>3</sup>
- Bioamrywiaeth yng Nghymru – Dangosydd Cenedlaethol<sup>3</sup>
- Safbwyntiau unigol pobl ynglŷn â bioamrywiaeth – Arolwg Cenedlaethol<sup>4</sup>

# 4

## Lleihau'r risg i bobl a chymunedau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd



“Roeddem yn gweithio ar safle yn Llanelli. Daeth dwy ferch oedd yn byw ar y stryd atom ni. Roedden nhw mor ddiolchgar ein bod ni yno, ac yn falch o’n gweld; mi wnaeth fi’n hapus ein bod ni’n gwneud gwaith da.

Allyn Hawkes  
Goruchwyliwr Gweithrediadau

## Amcan Llesiant 4:Lleihau'r risg i bobl a chymunedau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd

### Ble'r ydym yn awr?

Mae llygredd a llifogydd yn cael effeithiau niweidiol eang ar Gymru, a nodwyd bod ansawdd aer gwael yn un o'r bygythiadau amgylcheddol uniongyrchol mwyaf i bobl a'r amgylchedd naturiol. Mae'n gysylltiedig â 40,000 o farwolaethau cynamserol bob blwyddyn ledled y DU, gan gostio mwy na £20 biliwn y flwyddyn.<sup>12</sup>

Mae digwyddiadau llygredd amaethyddol yn parhau i fod yn broblem, gan effeithio'n sylweddol ar gyrsiau dŵr. Llygredd dŵr a achosir gan fwyngloddiau metel segur yng Nghymru yw'r gwaethaf yn y DU.<sup>7</sup>

Mae'n debygol y bydd newid yn yr hinsawdd yn arwain at fwy o ddigwyddiadau tywydd eithafol, ac mae pobl sy'n byw ar orlifdiroedd neu'n agos i arfordiroedd yn wynebu risg gynyddol. Mae sychder hefyd yn broblem ac mae'n debygol y bydd llai o ddŵr ar gael mewn rhai ardaloedd. Yn enwedig mewn ardaloedd trefol, mae wynebau anhydraid a datblygiadau ar orlifdiroedd yn dwysáu llifogydd lleol.

Er bod cyfraddau ailgylchu yn cynyddu,<sup>1</sup> mae gwastraff peryglus a thipio anghyfreithlon yn parhau i fod yn broblem ddifrifol. Mae angen i ni symud tuag at economi fwy cylchol – gan leihau'r defnydd o adnoddau yn y lle cyntaf a defnyddio adnoddau naturiol sawl gwaith cyn defnyddio'r gwastraff yn y pen draw i gynhyrchu ynni lle bo hynny'n bosibl.

Mae poblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru yn awgrymu y bydd cynnydd yn nifer y bobl sy'n agored i niwed y bydd angen cymorth arnynt pe bai digwyddiad amgylcheddol yn codi.

### Ble ydym ni am fod yn yr hirdymor?

Bydd peryglon amgylcheddol yn cael eu hystyried yn rhan o ddull integredig ar gyfer rheoli tir a dŵr. Bydd atebion sy'n seiliedig ar natur (megis plannu coed neu adfer gwlyptiroedd a gorlifdiroedd) yn cael eu hystyried fel cam cyntaf, er y bydd angen mwy o ddulliau 'peirianeg galed', megis cwiferi a rhwystrau concred, mewn rhai achosion. Bydd datganiadau ardal yn nodi'r cyfleoedd gorau ar lefel leol.

Bydd llifogydd yn cael eu trin yn ôl graddfa dalgylch dŵr: bydd yr holl afon a'r arfordir yn cael eu hystyried, a bydd amddiffynfeydd perygl llifogydd yn cynnwys cynlluniau buddsoddi hirdymor. Bydd systemau draenio cynaliadwy a ddarperir gan fannau gwyrdd ychwanegol mewn ardaloedd trefol yn helpu i reoli llifogydd, cynnydd mewn tymheredd, a llygredd gronynnol. Bydd llygredd gwasgaredig, gan gynnwys llygredd sy'n dod o fwyngloddiau neu amaethyddiaeth, er enghraifft, wedi cael ei leihau, gydag atebion syml i atal gollyngiad i gyrsiau dŵr. Bydd tir llygredig wedi cael ei adfer a'i adnewyddu lle bo hynny'n bosibl. Bydd yr holl wastraff, yn enwedig gwastraff peryglus ac anghyfreithlon, wedi'i leihau'n sylweddol, ac ni fydd tipio anghyfreithlon yn digwydd bellach. Bydd popeth y gellir ei ailgylchu yn cael ei ailgylchu wrth i ni weithio tuag at economi gylchol.



Bydd pobl yn deall bod atal yn well na gwellhad, felly ni fydd datblygiadau amhriodol bellach ar orlifdiroedd neu fannau lle mae'r risg o ddigwyddiadau amgylcheddol yn uchel. Bydd pawb yn deall ei bod hi'n well peidio â llygru yn y lle cyntaf.

Bydd cymunedau a busnesau yn deall y risg o lifogydd neu ddigwyddiad amgylcheddol yn digwydd yn eu hardal leol. Byddant yn gwerthfawrogi'r effeithiau ar wydnwch ecosystemau a sut mae hyn yn effeithio ar eu bywydau a'u bywoliaeth. Byddant yn deall yr hyn y gallant ei wneud eu hunain a chymryd cyfrifoldeb i atal neu leihau'r tebygolrwydd o ddigwyddiad a'r effaith y gallai ei chael. Os bydd rhywbeth yn digwydd, byddant yn gallu ymateb i leihau'r effaith a sicrhau y gofelir am y rhai mwyaf agored i niwed.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio mewn partneriaeth i helpu i gyflawni hyn – gan ddarparu arweiniad a chynghor, gwaith monitro a thystiolaeth, gwaith i fodelu a rhagweld y tebygolrwydd o ddigwyddiadau, ac ymateb effeithiol i'r digwyddiadau sy'n digwydd. Bydd pobl yn ymddiried ynom i argymhell y dull gorau i helpu i leihau'r risgiau i bobl, cynefinoedd, a bioamrywiaeth. Fel rheoleiddiwr cadarn ond teg, byddwn yn ymchwilio i ddigwyddiadau ac yn defnyddio ein hystod lawn o bwerau i fynd i'r afael â throedd amgylcheddol pan fo hynny'n angenrheidiol.

## Beth fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud hyd at 2022 i helpu i wneud hyn ddigwydd?

### Arwain drwy esiampl

- Defnyddio ein datganiadau ardal i asesu'r risg o beryglon amgylcheddol, a datblygu atebion sy'n seiliedig ar natur fel y dewis cyntaf i leihau eu hamlder/difrifoldeb. Sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys yn ein cynlluniau adnoddau naturiol ein hun ac o fewn cynlluniau llesiant y dyfodol a baratoir gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Sicrhau bod y risg o ddigwyddiad amgylcheddol ar y tir a'r dŵr a reolir gennym yn cael ei lleihau.
- Lleihau peryglon llygredd drwy ddefnyddio ein pwerau rheoleiddio mewn modd effeithiol.
- Cynnal ein hasedau llifogydd presennol ac adeiladu amddiffynfeydd llifogydd i leihau'r risg i 2,500 eiddo ychwanegol dros y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys cynlluniau a fydd yn cael eu cwblhau yn Llanelwy yn 2017/18 ac yng Nghrindai yn 2018/19.
- Ymateb i ddigwyddiadau sy'n digwydd fel ymatebwr Categori 1.
- Chwarae ein rhan yn Rhaglen Ymchwil ar y Cyd Asiantaethau Rheoleiddio a'r Rhaglen Ymchwil a Datblygu ar Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol a rennir rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd a DEFRA.

### Gweithio gyda'n partneriaid

- Sicrhau bod datganiadau ardal yn cynnwys atebion sy'n seiliedig ar natur sy'n lleihau'r tebygolrwydd o ddigwyddiadau amgylcheddol. Bod y rhain wedyn yn cael eu hintegreiddio i gynlluniau llesiant gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn sicrhau buddion lluosog lle bo hynny'n bosibl, fel creu cynefinoedd a chyfleoedd ar gyfer hamdden.
- Gweithio gyda phartneriaid, cymunedau, a'r sectorau amaethyddol a diwydiannol ar lunio mesurau ataliol i leihau'r tebygolrwydd y bydd digwyddiadau'n digwydd yn y lle cyntaf.

- Cydweithio gyda chyrrff lleol er mwyn paratoi ar gyfer a datblygu ymatebion i ddigwyddiadau amgylcheddol pe baent yn digwydd.
- Gweithio gyda phobl eraill i wella llesiant cymunedau arfordirol, yn enwedig o gwmpas ardaloedd sy'n agos iawn i'r arfordir a lle mae cilio a reolir yn rhan o'r cynllun hirdymor.
- Cydweithio â sefydliadau megis Iechyd Cyhoeddus Cymru, Fforwm Rheoli Tir Cymru, arolygwyr amaethyddol a Dŵr Cymru, a chyda awdurdodau lleol a rheoleiddwyr eraill, i ymchwilio i a rhoi cynnig ar ddulliau arloesol mewn perthynas ag ansawdd aer lleol, llygredd gwasgaredig a/neu amaethyddol, adfer cloddfeydd metel a thrin slyri, newid ymddygiad, a lleihau risgiau iechyd ac anghydraddoldebau drwy leihau amlygiad i lygryddion.
- Cefnogi mentrau megis Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru a Taclo Tipio Cymru.

### Sut y byddwn ni'n gwybod a oes unrhyw beth wedi newid?

#### Dangosydd/Ffynhonnell

- Eiddo sydd mewn perygl o lifogydd – Dangosydd Cenedlaethol<sup>3</sup>
- Safbwyntiau unigol pobl o ran perygl llifogydd – data Cyfoeth Naturiol Cymru
- Safbwyntiau unigol o ran ansawdd yr amgylchedd lleol – Arolwg Cenedlaethol<sup>4</sup>

# 5

## Helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy boddhaus



“Y peth rwy'n ei fwynhau fwyaf yw helpu syniadau'r gymuned i ddwyn ffrwyth, a gweld pobl yn gwerthfawrogi'r amgylchedd mewn modd hollol wahanol

Geminie Drinkwater  
Swyddog Prosiect  
(Coetir Cwm Llynfi)

## Amcan Llesiant 5: Helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy boddhaus

### Ble'r ydym yn awr?

Mae problemau iechyd sylweddol yng Nghymru. Gallai byw a gwneud defnydd da o amgylchedd naturiol sydd o ansawdd da helpu i fynd i'r afael â'r rhain fel rhan o ffordd o fyw iach a gwell iechyd corfforol a meddyliol. Er enghraifft, bydd 25% o bobl yn dioddef o broblemau iechyd meddwl ar ryw adeg o'u bywydau,<sup>13</sup> tra bo bron i 60% o bobl Cymru sy'n 16 oed neu hŷn dros bwysau neu'n ordew, ac mae'r niferoedd yn cynyddu.<sup>1</sup>

Mae'r anghydraddoldebau iechyd rhwng mannau gwahanol o Gymru yn arwyddocaol. O ran gordewdra yn ystod plentyndod, er enghraifft, ystyrir bod 19.2% o blant pedwar a phump oed ym Mro Morgannwg dros bwysau neu'n ordew, ond mae'r ffigwr hwnnw'n 33.8%<sup>14</sup> ym Merthyr Tudful. Mae gordewdra yn ystod plentyndod yn sylweddol uwch mewn ardaloedd mwy difreintiedig.<sup>1, 14</sup> Mae tlodi incwm yn effeithio ar 23% o'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd a 30% o bobl yng Nghymru.<sup>1</sup> Mae disgwyliad oes iach yn amrywio'n sylweddol hefyd rhwng yr awdurdodau lleol gwahanol.<sup>1</sup>

Er bod mwy nag 80% o oedolion Cymru yn cymryd rhan mewn rhyw fath o weithgaredd hamdden awyr agored o leiaf unwaith y flwyddyn, dim ond tua chwarter ohonynt sy'n gwneud hyn yn rheolaidd.<sup>2</sup> Mae menywod yn debygol o fod yn llai gweithgar na dynion.<sup>1</sup> Ac er bod hanner o'r holl blant a phobl ifanc yn gwneud ymarfer corff tair gwaith yr wythnos, mae'r niferoedd sy'n cymryd rhan yn lleihau'n sylweddol wrth iddynt dyfu.<sup>1</sup> Mae oddeutu 3% o bobl yn gwirfoddoli i amddiffyn yr amgylchedd.<sup>1</sup>

Er bod llawer o bobl eisoes yn mwynhau'r byd naturiol, mae heriau sylweddol er mwyn ailgysylltu rhai pobl â'r amgylchedd naturiol: mae pawb yn haeddu byw mewn ardaloedd deniadol o ansawdd da gydag ansawdd aer a dŵr da, a dylent gael eu hannog i ddefnyddio'r awyr agored i wella iechyd meddyliol a chorfforol.

### Ble ydym ni am fod yn yr hirdymor?

Bydd pobl yn mwynhau ac yn teimlo'n gysylltiedig â natur, ac yn cydnabod gwerth cynhenid yr amgylchedd naturiol a'i swyddogaeth mewn perthynas ag iechyd a lles a diwylliant a threftadaeth Cymru. Bydd dysgu yn ac am yr amgylchedd naturiol a'r buddion y mae'n eu darparu yn rhan o fywyd pawb – ac yn dechrau yn ystod plentyndod. Bydd gwneud defnydd gwell o fannau gwyrdd lleol mewn ardaloedd trefol a gwledig yn rhywbeth arferol, ynghyd â chydabyddiaeth fod ymarfer corff yn yr awyr agored yn helpu i atal nifer o afiechydon meddyliol a chorfforol. Bydd anghydraddoldebau iechyd rhwng ardaloedd gwahanol o Gymru a chymunedau gwahanol wedi cael eu lleihau'n sylweddol, gyda chynnydd mewn disgwyliad oes iach.

Bydd pobl yn ymfalchïo yn eu hardal leol ac yn gwirfoddoli i helpu i edrych ar ôl yr amgylchedd naturiol, gan ddysgu pethau newydd a rhoi yn ôl at y gymdeithas, a bydd eu hymdrechion yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi.

Bydd pobl yn teimlo'n sicr fod unrhyw risgiau amgylcheddol posibl, megis byw mewn ardal lle mae llifogydd yn dueddol o ddigwydd neu gerllaw ystâd ddiwydiannol, yn cael eu

rheoli'n dda, a bydd busnesau'n helpu i wella amgylcheddau lleol fel rhan o'u cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn annog mynediad at y tir a'r dŵr a reolir ganddo, ac yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gyfer hamdden a gwirfoddoli. Bydd mynediad yn cael ei weld yn ei ystyr ehangaf - gan gynnwys gwybodaeth a chymorth yn ogystal â mynediad corfforol. Bydd gennym fentrau ar y cyd gydag lechyd Cyhoeddus Cymru, Chwaraeon Cymru ac arbenigwyr eraill lle mae'r amgylchedd naturiol yn cael ei ddefnyddio i wella iechyd a lles, a lle mae teithio llesol megis beicio a cherdded yn cael ei annog. Bydd gwyddoniaeth gymdeithasol yn ein helpu i ddeall ymddygiad pobl a'r ffordd orau o annog ac ysgogi newid.

Bydd yr amgylchedd naturiol yn cael ei ystyried yn anhepgor i gynlluniau llesiant lleol, a bydd tirweddau a morluniau Cymru yn ysbrydoli dysgu gydol oes a chyfranogiad mewn chwaraeon a'r celfyddydau.

## Beth fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud hyd at 2022 i helpu i wneud hyn ddigwydd?

### Arwain drwy esiampl

- Datblygu a rheoli mynediad a seilwaith – llwybrau cerdded, rhedeg, beicio mynydd a marchogaeth, a phwyntiau mynediad, er enghraifft, ar dir a dŵr a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, gan annog pobl i'w ddefnyddio ar gyfer hamdden, a chanolbwyntio ar fannau lle gall hyn gynnig y budd mwyaf.
- Defnyddio'r tir a'r dŵr a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru i gefnogi prosiectau cymunedol a mentrau cymdeithasol, gan gynnwys prosiectau ynni cymunedol a choetiroedd cymunedol.
- Cyflwyno Cyfle, cynllun newydd Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer recriwtio, cefnogi a rheoli lleoliadau, gan gynnwys prentisiaethau, lleoliadau ymchwil a gwaith, lleoliadau profiad gwaith i fyfyrwyr, a gwirfoddoli, gan roi'r cyfle i bobl ennill sgiliau gwerthfawr a rhannu eu profiad a'u harbenigedd.
- Parhau i gyflwyno Plant! lle mae coeden yn cael ei phlannu am bob plentyn sy'n cael ei eni neu ei fabwysiadu yng Nghymru.
- Rheoli treftadaeth ddiwylliannol (henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig) ar y tir a reolir gennym.
- Darparu gwybodaeth ynglŷn â'n safleoedd hamdden a chyfleoedd i hyrwyddo'r hyn a gynigir gennym a grymuso pobl i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â lleoedd i ymweld â nhw, gweithgareddau i'w gwneud, a sut y gallant gymryd rhan.
- Cynnwys pobl, yn enwedig drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn y penderfyniadau a wneir gennym lle bo hynny'n briodol.

### Gweithio gyda'n partneriaid

- Helpu pob plentyn yng Nghymru i brofi a gwerthfawrogi'r amgylchedd naturiol. Gweithio mewn partneriaeth i ddylanwadu ar y cwricwlwm newydd yng Nghymru i sicrhau bod dysgu yn yr awyr agored yn cael ei gynnwys yn y cwricwlwm statudol ar gyfer pob grŵp oedran.

- Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru i ddatblygu camau gweithredu ar y cyd sy'n cefnogi amcanion ar y cyd, gan ddefnyddio'r amgylchedd naturiol i wella iechyd a lles.
- Sicrhau bod swyddogaeth yr amgylchedd naturiol o ran gwella iechyd corfforol ac iechyd meddwl yn cael ei chynnwys yng nghynllun llesiant pob un o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a bod cyfleoedd yn cael eu hamlygu mewn datganiadau ardal.
- Cefnogi Llywodraeth Cymru wrth gyflawni ei rhaglenni, gan gynnwys Tasglu'r Cymoedd a helpu pobl ddi-waith i ddod o hyd i swyddi.
- Gweithio gyda phartneriaid i gyflawni buddion Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Cenedlaethol Cymru ar gyfer ymwelwyr a phobl leol fel ei gilydd.
- Gweithio gyda phartneriaid, cymunedau ac addysgwyr i hyrwyddo gwerth yr amgylchedd naturiol lleol a'r cyfleoedd y gall eu cynnig i wella iechyd, datblygu sgiliau, a chefnogi treftadaeth ddiwylliannol Cymru.
- Cynyddu nifer y coetiroedd sy'n cael eu creu a'u rheoli, gan gynnwys mynediad i'r cyhoedd a chyfleoedd ar gyfer coetiroedd cymunedol a seilwaith gwyrdd, gan ddefnyddio data o'n hastudiaeth o orchudd coed mewn ardaloedd trefol.

## Dangosyddion Cymru: Sut y byddwn ni'n gwybod a oes unrhyw beth wedi newid?

### Dangosydd/Ffynhonnell

- Agoswydd at fannau gwyrdd hygyrch – data Cyfoeth Naturiol Cymru
- Gweithgaredd corfforol yn yr awyr agored a'i gysylltiad ag iechyd corfforol a meddyliol – Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru<sup>2</sup>
- Dealltwriaeth a gwerthfawrogiad pobl o'r buddion yr ydym yn eu cael gan adnoddau naturiol – Arolwg Cenedlaethol<sup>4</sup>

# 6

## Hyrwyddo busnes llwyddiannus a chyfrifol sy'n defnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi



Rwy'n hoffi meddwl fy mod yn helpu i adael etifeddiaeth i'm merch fel y gall barhau i fwynhau'r pethau hyn

Charlie Lewis  
Swyddog Cymorth  
Prosiectau

## Amcan Llesiant 6: Hyrwyddo busnes llwyddiannus a chyfrifol sy'n defnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi

### Ble'r ydym yn awr?

Mae dros 90% o'r tir rydym yn ei reoli yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth.<sup>5</sup> Hefyd, mae gennym bysgodfeydd dŵr croyw a morol lle mae sicrhau bod stociau pysgod yn gynaliadwy yn fater o bwys: er enghraifft, mae nifer yr eogiaid sy'n byw yn ein hafonydd wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf.<sup>1</sup>

Mae cyfraddau ailgylchu awdurdodau lleol wedi cynyddu o 52% yn 2012/13 i 60% yn 2015/16, sef y gyfradd uchaf yn y DU ar hyn o bryd. Yr oedd Cymru yn yr ail safle yn Ewrop a thrydydd yn y byd ar gyfer ailgylchu hefyd.<sup>1</sup>

Mae'r trydan a gynhrychir gan ffynonellau adnewyddadwy wedi mwy na threblu ers 2007, gan gyrraedd 20% o'r holl drydan a gynhrychir yng Nghymru erbyn 2015.<sup>1</sup> Mae parhau i gynyddu'r gyfran o ynni adnewyddadwy yn flaenoriaeth ar gyfer y dyfodol, ac mae [uchelgeisiau gan Lywodraeth Cymru](#) i 70% o'r trydan a gynhrychir yng Nghymru ddeillio o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030, gydag o leiaf 1GW o'r capasiti ynni adnewyddadwy o dan berchnogaeth leol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi diwydiant ac amaethyddiaeth drwy ei gyngor a'i waith rheoleiddio i leihau effeithiau amgylcheddol, rheoli llygredd, a lleihau'r tebygolrwydd o ddigwyddiadau. Er bod rhai busnesau yn gweithredu'n gynaliadwy eisoes, mae rhagor o gyfleoedd ar gyfer twf gwyrdd, sy'n fuddiol i'r diwydiant ei hun, yr amgylchedd naturiol, a phobl Cymru.

### Ble ydym ni am fod yn yr hirdymor?

Bydd Cymru'n cael ei hystyried fel lle gwych i wneud busnes, a bydd sefydliadau yn deall rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan fabwysiadu arferion gwaith cynaliadwy a gwerthfawrogi eu bod yn gweithredu fel rhan o ecosystemau gwych. Bydd hyn yn fuddiol nid yn unig i'r busnesau eu hunain ond hefyd pobl Cymru a'r amgylchedd naturiol, a fydd yn cael ei ystyried yn ased hanfodol. Bydd busnesau yn cael eu hannog i ddod yn achrededig a'u cydnabod am eu hymagwedd.

Bydd y sbectrwm o fusnesau yng Nghymru yn amrywio o ddiwydiannau traddodiadol a choedwigaeth, pysgota a ffermio, i weithredwyr twristiaeth a mentrau cymdeithasol. Yn y dyfodol, bydd cynllunio datblygu yn sicrhau bod busnesau newydd yn cael eu lleoli lle y byddant yn cael yr effaith leiaf posibl ar yr amgylchedd.

Bydd Cymru yn cael ei hystyried o fod â mantais gystadleuol gan ei bod yn croesawu twf gwyrdd. Bydd sectorau newydd, cynhyrchion newydd, ymchwil newydd ac arloesi mewn diwydiannau sydd eisoes yn bodoli yn cael eu hannog. Bydd Cymru'n gwneud y defnydd gorau o adnoddau naturiol a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg, ac ar yr un pryd yn deall, yn osgoi, ac yn lliniaru effeithiau ar yr amgylchedd naturiol, ac yn edrych am gyfleoedd i'w wella. Bydd adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithlon, a bydd yr ynni adnewyddadwy a gynhrychir wedi cynyddu'n sylweddol, gyda chyfran o'r capasiti ynni adnewyddadwy o dan



berchnogaeth leol. Bydd Cymru yn gweithio tuag at economi gylchol – lle mae'r defnydd o adnoddau yn cael ei leihau ac mae deunyddiau yn cael eu hailddefnyddio, eu hailgylchu, a'u defnyddio yn y pen draw i gynhyrchu ynni lle bo hynny'n bosibl.

Bydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru gysylltiadau cryf â diwydiant, yn rhoi cyngor ac yn gweithio ar y cyd cyn ac yn ystod y broses gynllunio er mwyn datblygu busnesau a thechnoleg sy'n gynaliadwy ac yn dda. Byddwn yn gwneud defnydd llawn o'n pwerau rheoleiddiol – gwaith trwyddedu a monitro i sicrhau cydymffurfiaeth a champau gorfodi – i amddiffyn yr amgylchedd naturiol ac i sicrhau nad yw busnesau cyfreithlon yn cael eu tanseilio.

Byddwn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu marchnadoedd eraill yn ogystal â Thalu am Wasanaethau Ecosystemau ac yn defnyddio ein pŵer prynu i ddylanwadu ar ein cyflenwyr a'r sector cyhoeddus ehangach i annog gweithio tuag at economi gylchol.

## Beth fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud hyd at 2022 i helpu i wneud hyn ddigwydd?

### Arwain drwy esiampl

- Datblygu ein gwaith masnachol yn unol â'n cynllun menter, gan sicrhau bod ein gweithgareddau yn cyfrannu'n gadarnhaol at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, yn ogystal â chynhyrchu incwm.
- Marchnata ein pren drwy gystadleuaeth deg ac agored, a sicrhau bod y coedwigoedd a reolir gennym yn cadw eu hardystiad coedwig annibynnol.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu ynni adnewyddadwy ar y tir yr ydym yn ei reoli, a chefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy ar dir cyfagos. Helpu i gyflawni ymrwymadau lleihau carbon Llywodraeth Cymru a hwyluso budd cymunedol gwell a mwy o berchnogaeth gymunedol dros brosiectau ynni adnewyddadwy.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu twristiaeth sydd wedi'i seilio ar hamdden ar y tir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys datblygu cabanau gwyliau ar o leiaf tri safle.
- Helpu i ddarparu swyddi da ledled Cymru fel cyflogwr uniongyrchol a chefnogi prentisiaethau, lleoliadau gwaith, a rhaglenni cyflogaeth Llywodraeth Cymru i helpu pobl i ddod o hyd i waith ar draws Cymru.
- Sicrhau bod gwaith cynghorol a rheoleiddio yn effeithlon ac yn effeithiol, gan ganiatáu i benderfyniadau da gael eu gwneud gan y rhai sy'n derbyn cyngor gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Ymateb i 95% o geisiadau cynllunio o fewn yr amserlenni statudol neu amserlenni y cytunwyd arnynt a monitro ansawdd ein cyngor a pha effaith a gafodd ein hymateb.
- Defnyddio ein pwerau arbrofol i weithio gyda thechnolegau sy'n dod i'r amlwg i helpu busnesau i weithredu'n gynaliadwy.

### Gweithio gyda'n partneriaid

- Hyrwyddo'r rhesymau cymhellol i fusnesau fabwysiadu dull rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar gyfer eu gweithrediadau, gan eu helpu i ddeall y manteision o'r dull hwn i'r diwydiant, pobl Cymru, a'r amgylchedd naturiol hefyd. Cefnogi busnesau fesul sector, gan gynnig gweledigaeth ar gyfer y dyfodol.

- Gweithio gyda'r sector preifat, cymdogion, cyrff gwirfoddol a chymunedau i gefnogi defnydd priodol o dir Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn darparu buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.
- Annog busnesau i fabwysiadu cynlluniau achredu priodol, megis B Corp, gan ddangos eu bod yn glinio at safonau amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol llym – yn ogystal â rhai economaidd.
- Cefnogi Llywodraeth Cymru ac eraill i ddatblygu Talu am Wasanaethau Ecosystemau a'i hymagwedd tuag at bwerau treth newydd.
- Cefnogi Llywodraeth Cymru gyda'r gwaith o baratoi ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.
- Cymryd yr awenau gydag asiantaethau amgylcheddol eraill y DU i sicrhau bod newidiadau rheoleiddio mewn mannau eraill o'r DU yn cael effaith fuddiol ar Gymru.
- Gweithio gyda'r byd academaidd ac yn enwedig ysgolion busnes i ddatblygu dulliau arloesol o ymgorffori rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy fel rhan arferol o fusnes.
- Rhoi camau ar waith i weithio tuag at economi gylchol a dyfodol diwastraff yng Nghymru.
- Cefnogi'r gwaith o reoli tirweddau o safon uchel a datblygiadau twristiaeth cynaliadwy gyda phartneriaid i wella'r economi ymwelwyr ledled Cymru.

## Dangosyddion Cymru: Sut y byddwn ni'n gwybod a oes unrhyw beth wedi newid?

### Dangosydd/Ffynhonnell

- Nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu hallyrru – Dangosydd Cenedlaethol<sup>3</sup>
- Datblygu rhagor o ddangosyddion mewn cydweithrediad â phartneriaid a busnesau yng Nghymru

# 7

## Datblygu CNC yn sefydliad rhagorol, sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf



“Rydym yn parchu hunaniaeth ein cwsmeriaid a'r partneriaid yr ydym yn gweithio gyda nhw, ac yn ceisio darparu'r gwasanaethau hynny yn eu dewis iaith, Cymraeg neu Saesneg fel y dymunant.

Lyn Williams  
Swyddog Iaith Gymraeg

## Amcan Llesiant 7: Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad rhagorol, sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf

### Ble'r ydym yn awr?

Ers 2013, rydym wedi sefydlu ein gallu annibynnol, gan ddatblygu ein systemau ein hun sy'n briodol i Gymru.

Rydym ar y trywydd iawn i wneud arbedion o £150 miliwn dros y deng mlynedd nesaf, fel yr amlinellir yn yr achos busnes i sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru. Er ein bod wedi llwyddo i wneud yn iawn am leihad mewn cyllid, bydd hyn yn dod yn llawer mwy heriol yn y blynyddoedd nesaf.

Rydym yn barod i ad-drefnu ein strwythur i gyflawni ein dull lleol, sy'n seiliedig ar ardal, gan ddilyn ymlaen o'n gwaith dros nifer o flynyddoedd sy'n arwain at y pwynt hwn.

### Ble ydym ni am fod yn yr hirdymor?

Byddwn yn arwain y ffordd at ddyfodol gwell i Gymru drwy reoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy. Byddwn hefyd yn gwybod ein bod yn gweithio yn y ffordd orau y gallwn gan fod ein staff a'n cwsmeriaid wedi dweud hynny wrthym. Byddwn yn ymdrechu am ragoriaeth ac yn gwella ein ffordd o weithio yn barhaus – mae hyn yn rhan annatod o'n diwylliant a'n hymddygiad.

Byddwn yn gofalu am ein staff: bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei ystyried yn lle gwych i weithio lle mae staff yn cael eu gwerthfawrogi – ac yn cydnabod eu bod yn cael eu gwerthfawrogi – am eu proffesiynoldeb a'u harbenigedd, a lle y gwrandewir arnynt ac mae eu hamrywiaeth yn cael ei dathlu. Bydd llesiant, iechyd a diogelwch yn hanfodol. Bydd gennym arweinyddiaeth gref a bydd pawb o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru yn meddu ar y sgiliau i wneud eu swydd ac yn cael eu grymuso i wneud hynny. Bydd y staff yn parhau i ddysgu ac arloesi drwy gydol eu gyrfaoedd, a byddwn yn cynnig cyfleoedd da ar gyfer datblygiad gyrfa a phroffesiynol.

Byddwn yn gofalu am ein cwsmeriaid: bydd cwsmeriaid wrth wraidd y ffordd yr ydym yn gweithio. Bydd y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, cymunedau lleol ac unigolion yn awyddus i weithio gyda ni ac yn ystyried ein bod yn bartner gwerthfawr gan ein bod yn canolbwyntio ar gwsmeriaid, yn gwrandao ac ymateb, ac yn awyddus i weithio ar y cyd. Byddwn yn cael ein hystyried a'n parchu fel sefydliad y gellir ymddiried ynddo, ac yn rheoleiddiwr cadarn ond teg sy'n defnyddio pwerau gorfodi i ysgogi newid cadarnhaol. Byddwn yn gwneud penderfyniadau clir, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a byddwn yn agored ac yn dryloyw o ran ein gwaith, gan gyfathrebu hyn yn effeithiol.

Rydym yn gofalu am yr amgylchedd naturiol: dyma pam ein bod ni yma. Dyma yw'r rheswm y mae pobl yn gweithio i Cyfoeth Naturiol Cymru fel arfer.

Gan wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau, byddwn yn realistig fel sefydliad o ran ein huchelgais, a bydd gennym hyblygrwydd cynhenid i wynebu anghenion newidiol. Bydd gennym y sgiliau, arloesiad, gwybodaeth fasnachol a phrosesau llywodraethu da i addasu i

newid, gan greu mwy o incwm lle y gallwn a chynnig gwerth da am arian ar gyfer pobl Cymru.

## Beth fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud hyd at 2022 i helpu i wneud hyn ddigwydd?

### Arwain drwy esiampl

- Ysbrydoli, ysgogi a grymuso ein staff i fyw ein gwerthoedd, a bod yn llysgenhadon ar ein rhan.
- Cynnal arolygon staff yn rheolaidd, a sicrhau ein bod yn gwrando ar staff, yn ymgysylltu â hwy i ddeall eu safbwyntiau, ac yn gweithio i wella Cyfoeth Naturiol Cymru fel lle i weithio a fydd yn bodloni eu disgwyliadau.
- Gwellu ein harweinyddiaeth, gan sicrhau bod ein holl staff yn deall y cyfeiriad yr ydym yn symud iddo, a datblygu diwylliant arweinyddiaeth cefnogol sy'n canolbwyntio ar lesiant.
- Cyflawni ein hymrwymiaadau o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer staff a'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau, gan ymgysylltu â sefydliadau eraill i ddysgu a rhannu arferion gorau.
- Cynllunio ar gyfer pwysau ariannol parhaus, cynnig gwerth da am arian, a chynyddu ein hincwm gan weithgareddau menter.
- Gweithredu ein prosiect dylunio sefydliad a ffyrdd o weithio erbyn 2019, i sicrhau ein bod yn cyflawni ein pwrpas yn fwy effeithiol ar lefel leol a chenedlaethol fel ei gilydd.
- Ennill achrediad am wasanaeth cwsmeriaid rhagorol drwy ddarparu ein rhaglen ffocws ar gwsmeriaid, gan fesur hyn trwy arolygon annibynnol o foddhad cwsmeriaid.
- Cadw ardystiad coedwigaeth annibynnol sy'n dangos bod ein pren yn cael ei reoli'n gynaliadwy ar gyfer cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill i Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig.
- Lleihau ein heffaith amgylcheddol a'n hól troed carbon ein hun drwy ein rhaglen carbon positif, gan ddangos arweinyddiaeth mewn datgarboneiddio yn y sector cyhoeddus.
- Treialu dull at gaffael ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar gadwyni cyflenwi ac yn gwneud y gorau o'n cyfraniad at y gwaith o gyflawni ein holl amcanion llesiant ein hun. Cyflwyno hyn ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru a'i rannu ar draws y sector cyhoeddus.
- Galluogi ein cwsmeriaid i wneud y dewis a ffafrir ganddynt ar gyfer gwneud busnes gyda ni ar-lein – oherwydd dyma'r ffordd symlaf, rhataf a chyflymaf o wneud hynny.

### Gweithio gyda'n partneriaid

- Rhedeg arolygon cwsmeriaid mewnol ac allanol i gynnig y man cychwyn i'w ddefnyddio i asesu ein gwelliant mewn perfformiad dros y blynyddoedd nesaf.
- Parhau i fod yn rhan integrol o'r holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n gweithio ar y cyd i weithredu'r set gyntaf o gynlluniau llesiant a datganiadau ardal sy'n dod i'r amlwg.
- Cefnogi rhannu'n ehangach a'r defnydd effeithlon o'n hasedau megis swyddfeydd a'n cerbydau, i helpu i symud at wasanaeth cyhoeddus integredig ac effeithlon i Gymru.
- Treialu dulliau newydd o ddyrannu grantiau, gan ddysgu a gwella ar hyd y ffordd.
- Cyflwyno ein dull peilot mewn perthynas â chaffael ar draws y sector cyhoeddus.

- Symud tuag at sefydliad sy'n galluogi mwy, lle rydym yn helpu partneriaid i weithio gyda ni i helpu i gyflawni canlyniadau ar y cyd.

### Sut y byddwn ni'n gwybod a oes unrhyw beth wedi newid?

#### **Dangosydd/Ffynhonnell**

- Ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gennym – rhaglen ffocws ar gwsmeriaid Cyfoeth Naturiol Cymru
- Safbwyntiau staff o ran Cyfoeth Naturiol Cymru – strategaeth pobl a thimau Cyfoeth Naturiol Cymru a'n harolygon pobl parhaus

## Rhan 3

Mae'r adran olaf hon yn esbonio ein gwaith cynllunio'r gweithlu a'n sefyllfa ariannol, gyda rhagor o fanylion yn dilyn hynny ynglŷn â sut y byddwn yn defnyddio dangosyddion, mesurau a thargedau i fonitro cynnydd.

### Ein hadnoddau – pobl ac arian

Bydd arnom angen gweithlu sy'n barod i wynebu'r her o'n blaen er mwyn cyflawni'r cynllun corfforaethol hwn – ac rydym yn hyderus bod un gennym eisoes. Mae pobl yn Cyfoeth Naturiol Cymru yn angerddol am eu gwaith: mae angen inni adeiladu ar hyn. Mae angen i ni wrando ar ein staff a'u cefnogi i wneud Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad gwell lle rydym ni i gyd yn dymuno gweithio.

Ers 2013, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi newid yn sylweddol, ond mae dal llawer i wneud i drawsnewid y sefydliad i fodloni ein ffyrdd newydd o weithio a'i wneud yn lle gwell i weithio. Hyd yn oed wedyn, bydd y newid yn parhau wrth i ni ddatblygu ac ymateb i ofynion yn y dyfodol, yn enwedig heriau ariannol a'r amgylchiadau sy'n newid o'n cwmpas.

Dros y ddwy i dair blynedd nesaf, byddwn yn gwneud Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad mwy integredig a lleol, gan ddefnyddio dull cenedlaethol yn unig lle mae'n gwneud mwy o synnwyr i wneud hynny – er enghraifft, gyda'n coedwigaeth fasnachol. Bydd hyn yn effeithio ar ein pobl, sydd eisoes wedi bod trwy newid sylweddol. Bydd arnom angen eu cefnogi drwy'r newidiadau hyn er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i bawb. Bydd gweithio mewn partneriaeth gyda'n cydweithwyr undebau llafur yn hanfodol i'r broses hon.

Trwy ein strategaeth pobl a thimau, byddwn yn datblygu ein harweinyddiaeth. Mae angen i ni sicrhau bod ein holl bobl yn deall ein pwrpas a sut y mae eu swyddogaeth yn cyfrannu'n benodol ato. Mae angen hefyd i ni ddatblygu ein diwylliant a'n hymddygiad. Mae angen i ni wneud Cyfoeth Naturiol Cymru'n lle da i weithio lle mae pobl yn gweithio mewn amgylchedd diogel a chadarnhaol, lle gallant ddatblygu eu gyrfaoedd, a lle y gwrandewir arnynt. Mae angen i ni wrando, deall, a rhoi sylw i faterion gwaelodol. Rydym ni i gyd am i Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn sefydliad lle gall pawb mwynhau eu gwaith a bod yn falch o'u cyfraniad at gyflawni ein hamcanion llesiant.

Bydd ein strategaeth ariannol yn amlinellu sut y byddwn yn bodloni egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a phum dull o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd y strategaeth yn tynnu sylw at y cyfleoedd ariannol a'r heriau y byddwn yn eu hwynebu wrth gyflawni'r uchelgeisiau a amlinellir yn ein cynllun corfforaethol. Byddwn yn uchafu'r cyfleoedd incwm masnachol a amlinellir yn ein cynllun menter, yn arddangos ein bod yn rheoleiddio diwydiannau'n effeithlon yng Nghymru, ac yn optimeiddio'r defnydd o'r cymorth grant yr ydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

Rydym yn ymwybodol y bydd heriau ariannol sylweddol yn ystod y cyfnod cynllun corfforaethol hwn: mae ein cymorth grant wedi cael ei leihau'n barod ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Bydd angen i ni wneud rhai dewisiadau caled a rhai penderfyniadau anodd: bydd y gyfran o'r cynllun corfforaethol hwn y gallwn ei chyflawni yn dibynnu ar yr adnoddau sydd gennym. Er gwaethaf hyn, byddwn yn defnyddio'r adnoddau sydd gennym yn y ffordd fwyaf effeithlon. Bydd blaenoriaethu ein harian yn ofalus a chynyddu ein hincwm yn hanfodol o ran cyflawni ein saith amcan llesiant.

Yn awr, yn fwy nag erioed, bydd cydweithio'n agos â sefydliadau eraill, gan gynnwys y byd academiaidd a chyrrff proffesiynol, yn hanfodol i'n llwyddiant, yn enwedig wrth ddarparu cynlluniau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ac wrth ddatblygu dulliau arloesol o ran yr hyn a wnawn a sut rydym yn gweithio.

## Monitro perfformiad:dangosyddion, mesurau a thargedau

Mae'r gwaith o ddatblygu ein dangosyddion hirdymor yn mynd rhagddo. Fel man cychwyn, rydym yn defnyddio'r dangosyddion cenedlaethol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol, ynghyd ag arolygon a ffynonellau eraill. Bydd y mesurau hirdymor hyn yn ein helpu i ddeall newidiadau mewn adnoddau naturiol Cymru, ynghyd â'r buddion lles maent yn eu darparu, ac effaith ymddygiad unigol, gwasanaethau cyhoeddus, polisïau a rhaglenni. Mae'r newidiadau yr ydym yn eu holrhain yn defnyddio dangosyddion ar lefel Cymru ac yn cynnwys gweithgareddau gan amrywiaeth eang o sefydliadau ac unigolion.

Mae'r dangosyddion yr ydym wedi'u dewis ar gyfer pob un o'n hamcanion llesiant â'r nod o:

- Ddangos pa elfennau llesiant y mae adnoddau naturiol yn eu cefnogi
- Alinio â dangosyddion eraill
- Ychwanegu gwerth at ein prosesau rheoli drwy alluogi pennu cyfeiriad a dwyn ein hun i gyfrif

Mae'r dangosyddion hyn:

- Yn gyfyng o ran nifer, sy'n golygu eu bod yn set gydlynol sydd yn hawdd ei rheoli
- Yn gallu cael eu crynhoi er mwyn eu deall yn hawdd
- Yn gallu cael eu paratoi mewn modd amserol
- Yn defnyddio data a dadansoddiadau presennol, wrth ddatblygu meysydd eraill yn ôl y gofyn

Byddwn yn parhau i adolygu pa mor briodol yw ein dangosyddion, gan sicrhau eu bod yn alinio â'r gwaith o ddatblygu'r ail Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol, a ddisgwylyr yn 2020, a'u bod yn asesu'r canlyniadau a ddymunir.

Rydym yn disgwyl datblygu dangosyddion ychwanegol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn y meysydd canlynol:

- Rheoli tir a dŵr mewn modd integredig
- Asesu'r trawsnewidiad i economi werdd/carbon isel sy'n effeithlon o ran adnoddau
- Y cysylltiad rhwng iechyd a mynediad i'r amgylchedd, gan gynnwys agosrwydd at fannau gwyrdd hygyrch (mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru)
- Cynnydd tuag at fod yn genedl ddiwastraff
- Safonau sy'n awgrymu bod arferion busnes cynaliadwy wedi cael eu mabwysiadu

Erbyn mis Ebrill 2018, byddwn wedi datblygu ein mesurau tymor canolig i ddangos sut mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn perfformio dros hyd oes y cynllun corfforaethol. Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'n Cynllun Busnes 2018/19, a fydd hefyd yn cynnwys ein targedau blynyddol tymor byr. Byddwn yn



ystyried ac yn adolygu ein dangosyddion, ein mesurau a'n targedau fel rhan o'n cylch cynllunio blynyddol parhaus, gan sicrhau ein bod yn uchelgeisiol ac yn fanwl gywir wrth fesur ein perfformiad ein hun a sut yr ydym yn cyfrannu at lesiant yng Nghymru, ar hyn o bryd ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## Cyfeiriadau

<sup>1</sup> Ystadegau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru (2017), *Llesiant Cymru 2016–17*

<http://gov.wales/statistics-and-research/well-being-wales/?skip=1&lang=cy>

<sup>2</sup> Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru: Ffeithiau Allweddol ar gyfer Polisi ac Afer: Adroddiad Cryno (2016), ar gael drwy'r ddolen ganlynol: <https://naturalresources.wales/media/681026/arolwg-hamdden-awyr-agored-cymru-ffeithiau-allweddol-ar-gyfer-polisi-ac-ymarfer-2016.pdf>

<sup>3</sup> Dangosyddion Cenedlaethol Llywodraeth Cymru (2016)

<http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy>

<sup>4</sup> Arolwg Cenedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru 2016–17

<http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?tab=current&skip=1&lang=cy>

<sup>5</sup> Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cyfoeth Naturiol Cymru (2016), a gymerwyd o Lywodraeth Cymru, Busnes Cymru (2015), *Gwerth Bwyd a Diod Cymru*

<https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/value-welsh-food-and-drink>

<sup>6</sup> Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cyfoeth Naturiol Cymru (2016), a gymerwyd o Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru (2015)

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/marineandfisheries/marine-planning/other-supporting-evidence/wales-marine-evidence-report/?skip=1&lang=cy>

<sup>7</sup> Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cyfoeth Naturiol Cymru 2016, a gymerwyd o bapur y bwrdd Mynd i'r afael â'r effeithiau a achosir gan Fwyngloddiau Metel Segur

<https://naturalresources.wales/media/677992/07a-addressing-the-impacts-from-abandoned-metal-mines-nrw-b-3016-cym.pdf>

<sup>8</sup> Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cyfoeth Naturiol Cymru (2016), a gymerwyd o Hall J, Smith R. (2015), *Trends in critical load exceedances in the UK*. Canolfan Ecoleg a Hydroleg: Adroddiad ar gyfer Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA). Ar gael drwy'r ddolen ganlynol:

[http://www.cldm.ceh.ac.uk/sites/cldm.ceh.ac.uk/files/TrendsReport\\_June2015](http://www.cldm.ceh.ac.uk/sites/cldm.ceh.ac.uk/files/TrendsReport_June2015)

<sup>9</sup> Dangosyddion Coetiroedd i Gymru Llywodraeth Cymru (2016)

<http://gov.wales/statistics-and-research/woodlands-wales-indicators/?lang=cy>

<sup>10</sup> Strategaeth Ddŵr i Gymru:

[llyw.cymru/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/publications/water-strategy/?skip=1&lang=cy](http://llyw.cymru/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/publications/water-strategy/?skip=1&lang=cy)

<sup>11</sup> Comisiwn Ewropeaidd (2015), Science for Environment Policy: *The Value of Natura 2000*. DOI

10.2779/162593. Hewins E, Toogood S, Alonso I, Glaves DJ, Cooke A ac Alexander R. (2007), *The condition of lowland heathland: results from a sample survey of non-SSSI stands in England*. Adroddiad Ymchwil Natural England, NERR002.

<sup>12</sup> Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cyfoeth Naturiol Cymru (2016): Coleg Brenhinol y Meddygon (2016), *Every breath we take: the lifelong impact of air pollution*. Llundain: Coleg Brenhinol y Meddygon.

Ar gael drwy'r ddolen ganlynol: <https://www.rcplondon.ac.uk/projects/outputs/every-breath-we-take-lifelong-impact-air-pollution>

<sup>13</sup> Gwefan Mind <https://www.mind.org.uk/information-support/types-of-mental-health-problems/statistics-and-facts-about-mental-health/how-common-are-mental-health-problems/#.Wqm1LY1LFZs>

<sup>14</sup> Iechyd Cyhoeddus Cymru (2017): Rhaglen Mesur Plant Cymru 2015/16

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/12518%20PHW%20CMP%20Report%20%28Eng%29.pdf>

## Rhestr o dermau

**Adferiad** - mae hwn yn cyfeirio at waredu llygredd neu halogion o'r amgylchedd megis pridd, dŵr daear, gwaddodion neu ddŵr wyneb. Fe'i cyflawnir gan fod llygredd neu halogion o'r fath yn gallu effeithio'n negyddol ar iechyd dynol a'r amgylchedd.

**Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2016** – mae'r adroddiad hwn (a luniwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru) yn amlinellu sefyllfa adnoddau naturiol Cymru. Mae'n asesu'r graddau y mae adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, ac yn argymhell dulliau rhagweithiol ar gyfer adeiladu gwydnwch. Mae'r adroddiad yn dangos lle mae bylchau mewn tystiolaeth ac yn nodi cyfleoedd ar gyfer atebion integredig sy'n cynnig buddion lluosog.

**Amcanion Llesiant** – y saith amcan a ddatblygwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o'n datganiad Llesiant sy'n rhoi manylion ynghylch sut y byddwn yn cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n ofynnol i'r holl gyrrff cyhoeddus yng Nghymru ddatblygu amcanion Llesiant.

**ANHE** – mae Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol o statws cyfartal o ran ansawdd y dirwedd i barciau cenedlaethol ond maent ond wedi'u dynodi (o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000) i gadw a gwella eu harddwch naturiol eithriadol. Yn wahanol i barciau cenedlaethol, nid oes gan y cyrrff cyfrifol eu pwerau cynllunio eu hunain. Maent hefyd yn wahanol i barciau cenedlaethol gan fod llai o gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored helaeth ynddynt. Mae pump ANHE yng Nghymru: Ynys Môn, Llŷn, Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Gŵyr, ac ANHE Dyffryn Gwy, sydd hefyd yn pontio'r ffin i Loegr.

**Ardaloedd Cadwraeth Arbennig** – ardaloedd a ddewiswyd i wneud cyfraniad sylweddol at gadw cynefinoedd a rhywogaethau, fel yr amlinellir yng Nghyfarwyddiaeth Cynefinoedd y Gymuned Ewropeaidd. Mae Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol yn cael eu datblygu hefyd i amddiffyn cynefinoedd a rhywogaethau morol, gan gynnwys dyfrgwn, herlod a gwangod, llysywod, morloi llwyd, llamidyddion a dolffiniaid trwynbwl.

**Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig** – ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n benodol i warchod adar gwyllt sydd wedi'u rhestru'n brin a bregus yn ôl Cyfarwyddiaeth Adar y Gymuned Ewropeaidd. Maent hefyd yn cynnwys safleoedd a ddefnyddir gan adar mudol fel manau torri siwrnai ar eu teithiau o gwmpas y byd. Mae'r rhywogaethau yn cynnwys y barcud coch, y cudyll bach, gwalch y pysgod, y cwtiad aur, ac aderyn drycin Manaw.

**Ardaloedd Morol Gwarchodedig** – rhannau o'r môr sydd wedi'u nodi i warchod cynefinoedd a rhywogaethau morol. Maent yn cwmpasu ystod eang o fywyd gwyllt morol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau prin a sensitif. Maent yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) sy'n cwmpasu'r môr neu lan y môr a safleoedd sydd o bwys Ewropeaidd a rhyngwladol megis Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig.

**Arolwg Cenedlaethol** – arolwg a gynhelir gan Lywodraeth Cymru yw hwn, yn seiliedig ar grŵp cynrychiadol o 10,000 o bobl. Mae'r arolwg yn cynnwys amrywiaeth o bynciau, gan ganolbwyntio'n bennaf ar lesiant a safbwynt pobl ynglŷn â gwasanaethau cyhoeddus.

**Astudiaeth Gorchudd Coed Trefol** – arolwg a gomisiynwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n defnyddio ffotograffau o'r awyr o 2006 i 2009 i nodi a mapio amrediad gorchudd coed mewn ardaloedd trefol. Mae'n dangos nifer y coed sydd gennym, lle maent wedi'u lleoli, a lle maent yn cael eu dinistrio dros amser. Bydd hyn yn helpu i lywio sut y dylwn reoli coed trefol mewn modd gwell yn y dyfodol, ac yn nodi cyfleoedd ar gyfer creu coetir.

**Bioamrywiaeth** – yr ystod lawn o organebau byw (rhywogaethau), gan gynnwys amrywiad genetig ymhlith rhywogaethau.

**Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** – mae'r rhain yn ofyniad statudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Eu diben yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd drwy gryfhau gweithio ar y cyd ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn aelod statudol o bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Carbon bositif** – mae carbon bositif yn symud y tu hwnt i garbon niwtral drwy wneud cyfraniadau 'positif' ychwanegol. Statws carbon net yw'r cydbwysedd rhwng allyriadau ac atafaeliadau. Os caiff llai o garbon ei allyrru na'i ddal (atafaeliad), yna mae'r broses neu'r gweithgaredd hwnnw'n garbon bositif.

**Carbon niwtral** – unrhyw broses neu weithgaredd nad yw'n arwain at ryddhad net o garbon deuocsid i'r atmos**Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur** – y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yw'r corff cyhoeddus sy'n cynghori Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig ynghylch cadwraeth natur ledled y DU ac yn rhyngwladol.

**Cyfle** – cynllun newydd Cyfoeth Naturiol Cymru yw Cyfle ar gyfer recriwtio, cydgysylltu, cefnogi a rheoli lleoliadau, gan gynnwys prentisiaethau, lleoliadau addysg uwch, lleoliadau gwaith, lleoliadau profiad gwaith i fyfyrwyr, lleoliadau ymchwil i fyfyrwyr, a lleoliadau gwirfoddoli Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Cymorth grant** – arian yw hwn sy'n dod o lywodraeth ganolog neu ddatganoledig ar gyfer gwaith penodol – yma, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian cyhoeddus ar gyfer gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru. Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru weithredu gydag annibyniaeth resymol, ond mae gofynion a safonau o ran sut y dylid gwario arian yn gymwys.

**Cymuned** – grŵp o bobl sydd â rhywbeth sy'n gyffredin iddynt – lleoliad, neu ddiddordeb ar y cyd.

**Cynaliadwyedd** – yn gyffredinol, dyma'r gallu i gynnal proses neu gyflwr penodol am gyfnod amhenodol. Mae'r cysyniad o gynaliadwyedd yn gymwys i bob agwedd ar fywyd ar y ddaear, ac fe'i diffinnir yn aml o fewn cyd-destunau ecolegol, cymdeithasol ac economaidd.

**Cynefinoedd** – y math o amgylchedd lle mae planhigion ac anifeiliaid yn byw. Caiff cynefinoedd eu pennu gan yr hinsawdd, y ddaearyddiaeth, a'r mathau o blanhigion sy'n tyfu yno.

**Cynllun Adfer Natur Cymru** – mae hwn yn gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac mae'n amlinellu sut y bydd

Cymru'n mynd i'r afael â Chynllun Strategol ar gyfer Bioamrywiaeth y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol a'r targedau bioamrywiaeth Aichi sy'n gysylltiedig yng Nghymru. Bydd Cynllun Adfer Natur Cymru yn nodi'r camau y gellir eu cyflawni yn y tymor byr ac yn pennu cyfeiriad ar gyfer cyflawni ymrwymïadau tymor hwy y tu hwnt i 2020. Bydd camau gweithredu'r cynllun yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, gan sicrhau eu bod yn parhau i fodloni amcanion a chyflawni uchelgais adfer natur yng Nghymru. Bydd set o ddangosyddion yn cael eu datblygu hefyd i fesur cynnydd Cynllun Adfer Natur Cymru yn erbyn amcanion. I gyd-fynd â'r cynllun, bydd Fframwaith Adfer Natur yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r prif rai sy'n gyfrifol am gyflawni camau gweithredu bioamrywiaeth yng Nghymru, a sut mae'r rhain wedi'u cysylltu â'i gilydd.

**Cynllun corfforaethol** – cynllun strategol sy'n amlinellu'r blaenoriaethau tymor canolig ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru dros gyfnod o dri i bum mlynedd.

**Cynllun menter** – mae'r cynllun hwn yn cynnwys gweithgareddau masnachol Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n datblygu cerrig milltir ar gyfer cynhyrchu incwm, sy'n esiamplau o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, wrth weithio gyda phartneriaid a chymunedau.

**Cynllun sefydliadol** – bydd y prosiect hwn yn ailgynllunio ein dulliau gweithio a sefydliadol i helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni ei bwrpas, gan ymgorffori rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol ym mhopeth a wnawn, a chyflwyno ein map ffordd (gweler esboniad pellach o 'map ffordd' isod).

**Cyrff etifeddol** – y cyrff a ddaeth at ei gilydd ym mis Ebrill 2013 i greu Cyfoeth Naturiol Cymru (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru). Systemau etifeddol yw'r systemau sy'n parhau i gael eu darparu gan 'riant-gyrff' y sefydliadau hyn, megis Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth.

**Dangosyddion** - yng nghyd-destun y cynllun corfforaethol, mae dangosyddion yn monitro'r tueddiadau hirdymor yng Nghymru yn eu cyfanrwydd, ac yn dangos sut mae ffactorau arbennig, megis allyriadau nwyon tŷ gwydr neu ordewdra yn ystod plentyndod, yn newid dros amser. Mae'r set hon o ddangosyddion yn cael ei datblygu a bydd yn cael ei chysylltu â'n dogfen weledigaeth hirdymor, a fydd yn cael ei datblygu yn 2018/19. Mae'r ffynonellau gwybodaeth ar gyfer y dangosyddion hyn yn cynnwys dangosyddion cenedlaethol Llywodraeth Cymru a'r Arolwg Cenedlaethol.

**Dangosyddion cenedlaethol** – yn ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r dangosyddion yn cael eu pennu gan Weinidogion Cymru ac fe'u cynlluniwyd i adlewyrchu Cymru yn ei chyfanrwydd a dangos sut mae pawb yn cyfrannu at y nodau llesiant.

**Dalgylchoedd dŵr** – dalgylch yw ardal lle mae dŵr yn cael ei gasglu gan y dirwedd naturiol. O fewn dalgylch, bydd dŵr ffo o law yn llifo yn y pendraw i nant, afon, argae, llyn neu gefnfor neu i fewn i system dŵr daear.

**Datganiad llesiant** – yn ofynnol yn ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r datganiad llesiant a gynhyrchir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn diffinio ac yn amlinellu ein hamcanion llesiant a'r camau rydym yn eu cymryd i'w cyflawni. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn ein cynllun corfforaethol ymhen amser.

**Datganiadau ardal** – mae datganiadau ardal yn sail dystiolaeth i helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i ddarparu rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol ar lefel leol ledled Cymru gyfan. Byddant yn dod â data, gwybodaeth a ffyrdd o ymgysylltu ag eraill ynghyd er mwyn ein cynorthwyo i ddeall cyflwr a thueddiadau adnoddau naturiol mewn ardal yn well, y pwysau arnynt, a'r buddion yr ydym yn eu derbyn. Maent yn ofynnol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a byddant yn cael eu defnyddio wrth ddatblygu cynlluniau llesiant gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Datgarboneiddio** – y broses o leihau neu waredu ar garbon deuocsid o ffynonellau ynni. Gallai cymysgedd o fathau o ynni adnewyddadwy – megis pŵer gwynt a'r haul, atomfeydd, a gorsafoedd trydan sy'n llosgi glo a nwy ond sy'n dal allyriadau carbon deuocsid – gynhyrchu digon o drydan gydag ond ychydig o allyriadau nwyon tŷ gwyr. Mae hyn yn berthnasol hefyd o ran defnyddio deunyddiau newydd sy'n dod o ffynonellau mwy cynaliadwy, gan leihau'r ôl-troed carbon a'r effaith ar yr amgylchedd.

**Datrysiadau sy'n seiliedig ar natur** – camau gweithredu i amddiffyn, rheoli'n gynaliadwy, ac adfer ecosystemau naturiol neu wedi'u haddasu sy'n mynd i'r afael â newidiadau cymdeithasol mewn modd effeithiol ac ymaddasol. Maent yn darparu buddion lles dynol a bioamrywiaeth ar yr un pryd, megis plannu coed yn yr ucheldiroedd er mwyn helpu i leihau difrifoldeb llifogydd ymhellach i lawr yr afon.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** – mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sicrhau bod y cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf yn meddwl yn fwy am yr hirdymor, yn gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ac yn edrych i atal problemau a defnyddio dull mwy cydgysylltiedig. Mae hefyd yn golygu, am y tro cyntaf, y bydd yn rhaid i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf weithredu mewn ffordd gynaliadwy.

**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** – deddfwriaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n rhoi'r ddeddfwriaeth angenrheidiol ar waith i alluogi'r gwaith o gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd mwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgyssylltiedig nag oedd yn bosibl o'r blaen. Mae hefyd yn amlinellu diben Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Diwastraff** – dull sy'n annog ailgynllunio cylchau bywyd adnoddau er mwyn sicrhau bod yr holl gynhyrchion yn cael eu haildefnyddio. Y nod yw sicrhau nad oes unrhyw wastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi neu losgwyr. Mae'r broses a argymhellir yn debyg i'r ffordd y mae adnoddau yn cael eu haildefnyddio mewn natur. **Economi gylchol** – dewis arall yn lle'r economi linol draddodiadol (cynhyrchu, defnyddio, gwaredu), lle rydym yn parhau i ddefnyddio adnoddau cyhyd ag y bo modd, gan dynnu'r gwerth mwyaf oddi wrthynt wrth eu defnyddio, ac wedyn adfer ac atgynhyrchu cynhyrchion a deunyddiau ar ddiwedd bywyd pob gwasanaeth.

**Ecosystemau** – y rhyngweithio o gymunedau o blanhigion ac anifeiliaid (gan gynnwys bodau dynol) â'i gilydd a chyda'r amgylchedd di-fyw. Mae ecosystemau cytbwys yn sefydlog pan gânt eu hystyried dros y tymor hir (cannoedd o flynyddoedd yn achos rhai cynefinoedd megis coetiroedd).

**Effeithlonrwydd adnoddau** – mae hyn yn golygu defnyddio adnoddau prin y ddaear mewn modd cynaliadwy wrth leihau'r effeithiau ar yr amgylchedd, gyda'r posibilrwydd o gyflawni gwerth gwell gyda llai o fewnbwn.

**Fforwm Rheoli Tir Cymru** – sefydlwyd hwn ym mis Mai 2013 i weithredu fel y prif lwybr cyfathrebu rhwng bwrdd a thîm gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru a deiliaid swyddi etholedig o brif sefydliadau rheoli tir Cymru. Mae'r fforwm yn cynnig ffordd o rannu gwybodaeth, nodi meysydd o ddiddordeb cyffredin, a datblygu dull 'dim byd annisgwyl' i faterion strategol. Ar hyn o bryd, mae'r fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr o Confor, yr undebau ffermio a rheoli tir, a sefydliadau perchnogion, ond bydd yn adnewyddu ei gylch gorchwyl a'i aelodaeth, ac mae'n edrych ar ehangu ei gynrychiolaeth o fewn y sector coedwigaeth.

**Fframwaith perfformiad** – y cyfuniad o ddangosyddion hirdymor sy'n monitro tueddiadau ar gyfer yr amgylchedd naturiol yng Nghymru a mesurau a thargedau perfformiad tymor canolig (tair i bum mlynedd) a thymor byr (blynyddol) sy'n monitro'r hyn mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i gyflawni, sut mae hyn yn cyfrannu at y darlun ar gyfer amgylchedd naturiol Cymru yn ei gyfanrwydd, a'r buddion y mae'n eu darparu i bobl.

**Ffyniant i Bawb** – mae hwn yn strategaeth genedlaethol sy'n cymryd ymrwymiadau 'Symud Cymru Ymlaen', Rhaglen Lywodraethu Cymru, ac yn eu gosod mewn cyd-destun hirdymor. Mae'n amlinellu sut y byddant yn cael eu gwireddu drwy dwyn ynghyd ymdrechion yr holl sector cyhoeddus yng Nghymru.

**Gorlifdir** – ardal o dir gerllaw ffrwd neu afon sy'n estyn o lannau ei sianel i waelod waliau amgylchynol y dyffryn ac sy'n cael ei boddi yn ystod cyfnodau o lifoedd uchel.

**Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol** - mae Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol yn safleoedd gwarchodedig sy'n cynnwys rhai o'r ecosystemau daearol ac arfordirol naturiol a lled-naturiol gorau ym Mhrydain Fawr. Maent yn cael eu rheoli i gadw eu cynefinoedd neu i gynnig cyfleoedd arbennig i gynnal astudiaethau gwyddonol o'r cynefinoedd, y cymunedau a'r rhywogaethau sy'n byw ynddynt. Mae safleoedd morol yn cael eu dynodi fel Gwarchodfeydd Natur Morol: yng Nghymru, mae Sgomer yn Warchodfa Natur Forol.

**Gwydnwch** – ym maes ecoleg, gwydnwch yw gallu ecosystem i ymateb i aflonyddwch neu ymyrraeth drwy wrthsefyll difrod ac adfer yn gyflym.

**Gwydnwch ecosystem** – gallu ecosystem i ymateb i aflonyddwch drwy wrthsefyll difrod ac adfer yn gyflym.

**Map ffordd** – mae hwn yn diffinio gweledigaeth Cyfoeth Naturiol Cymru fel sefydliad, a'r hyn y mae angen inni ei wneud i'w chyflawni. Mae'n cynnwys ailstrwythuro ein sefydliad i sicrhau ein bod yn cyflawni ein gweledigaeth a'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

**Mater gronynnol** – dyma yw cyfanswm yr holl ronynnau solid a hylif mewn daliant yn yr awyr, y mae llawer ohonynt yn beryglus i iechyd. Gall gynnwys gronynnau organig ac anorganig, megis llwch, paill, huddygl, mwg, a defnynnau hylif. Mae'r gronynnau hyn yn amrywio llawer o ran maint, cyfansoddiad, a tharddiad. Maent yn cael eu hallyrru naill ai'n uniongyrchol, er enghraifft pan fydd tanwydd yn cael ei losgi neu pan fydd llwch yn cael ei gludo gan wynt, neu eu ffurfio'n anuniongyrchol pan fydd llygryddion nwyol a allyrrwyd i'r awyr o'r blaen yn troi'n fater gronynnol.

**Mesurau a thargedau perfformiad** – mesurau tymor canolig a thargedau blynyddol sy'n monitro cynnydd tuag at dargedau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u gosod ei hun dros gyfnod o dair i bum mlynedd ac yn flynyddol, gan ddangos p'un a yw'r rhain wedi cael eu cyflawni ai peidio. Mae gennym set o dargedau blynyddol tymor byr sy'n gysylltiedig â'n cynllun busnes blynyddol. Mae'r mesurau perfformiad tair i bum mlynedd yn cael eu datblygu a byddant yn cael eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2018.

**Newid yn yr hinsawdd** – mae hyn yn newid o ran dosbarthiad ystadegol patrymau tywydd pan fydd y newid hwnnw'n para dros gyfnod estynedig (h.y. degawdau i filiynau o flynyddoedd). Mae rhai gweithgareddau dynol wedi cael eu nodi'n brif achosion newid hinsawdd parhaus, y cyfeirir ato'n aml fel cynhesu byd-eang.

**Nodau Byd-eang y Cenhedloedd Unedig** – dyma agenda 2030 y Cenhedloedd Unedig ar gyfer datblygu cynaliadwy. Enw'r fframwaith yw 'Trawsnewid ein Byd' ac mae'n cynnwys 17 o amcanion ac 169 o dargedau i waredu ar dlodi, brwydro yn erbyn anghydraddoldeb, a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd dros y 15 mlynedd nesaf.

**Ôl-troed ecolegol** – mae hyn yn fesur o alw dynol ar natur, h.y. y maint o natur sydd ei hangen i gefnogi pobl neu economi. Caiff y galw hwn ei olrhain trwy system gyfrifo ecolegol, sy'n gwrthgyferbynnu'r ardal fiolegol gynhyrchiol a ddefnyddir gan bobl i'r ardal fiolegol gynhyrchiol sydd ar gael o fewn rhanbarth neu'r byd ((biocapaciti). Mae'n fesur o effaith ddynol ar ecosystemau'r ddaear ac mae'n datgelu dibyniaeth yr economi ddynol ar gyfalaf naturiol neu ddeunyddiau, organebau a phrosesau naturiol.

**Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol** – mae'r rhain yn safleoedd sydd â hanes hir o orchudd coetir. Maent yn goetiroedd rhannol naturiol hynafol lle cliriwyd y coetir 'naturiol' gwreiddiol, gan ei ddisodli gan blanhigfa o rywogaethau sydd naill ai'n frodorol neu'n egsotig.

**Plant!** – ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i blannu coeden lydanddail frodorol am bob plentyn sy'n cael ei eni neu ei fabwysiadu yng Nghymru. Enwyd y cynllun ar ôl y gair Cymraeg am blant a'r gair Saesneg am blannu.

***Phytophthora ramorum*** – pathogen planhigion sy'n debyg i ffwng ac sy'n lladd coed llarwydd (a rhai planhigion eraill) ac sydd ar hyn o bryd yn ymledu yn gyflym trwy Gymru.

**Rhaglen Ymchwil ar y Cyd Asiantaethau Rheoleiddio** – mae'r rhaglen hon yn ariannu ymchwil ar y cyd rhwng asiantaethau amgylcheddol y DU ac Iwerddon.

**Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy** – defnyddio adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy ac ar raddfa sy'n cynnal ac yn gwella gwydnwch ecosystemau a'r buddion y maent yn eu darparu. Drwy wneud hyn, mae'n bodloni anghenion cenedlaethau presennol o bobl heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion hwythau.

**Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig** – mae hwn yn gasgliad o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig neu warchodfeydd unigol sy'n gweithredu ar y cyd ac yn synergyddol, ar raddfeydd gofodol amrywiol a chydag amrywiaeth o lefelau diogelu, sydd wedi'u dylunio i gyflawni amcanion nad yw un warchodfa unigol yn gallu eu cyflawni. Mae rhwydwaith o'r fath yn gallu cynnwys sawl Ardal Forol Warchoddedig o faint gwahanol, a leolir mewn cynefinoedd critigol, sy'n cynnwys elfennau o fath cynefin arbennig neu rannau o fathau



gwahanol o gynefinoedd pwysig, ac sy'n rhyng-gysylltiedig gan symudiad anifeiliaid a phlanhigion. Mae rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig fel arfer yn cael ei sefydlu i wella faint o bysgod sy'n cael eu dal, i gadw bioamrywiaeth, neu ar gyfer cyfuniad o'r ddau reswm hyn.

**Rhywogaethau estron goresgynnol** – mae rhywogaeth estron oresgynnol yn unrhyw anifail neu blanhigyn estron sydd â'r gallu i ledaenu, gan achosi niwed i'r amgylchedd, yr economi, ein hiechyd, a'r ffordd yr ydym yn byw. Mae enghreifftiau yn cynnwys y rhododendron, gwiwerod llwyd neu *Chalara fraxinea* (clefyd coed ynn). Mae rhywogaeth estron yn cyfeirio at rywogaeth, isrywogaeth neu ddosbarthiad is a gyflwynwyd (h.y. drwy weithred ddynol) y tu allan i'w amrediad naturiol presennol neu yn y gorffennol. Mae nifer o rywogaethau estron yn y DU, ond dim ond ychydig ohonynt sy'n oresgynnol.

**Safleoedd dynodedig** – safleoedd a ddiogelir yn benodol gan y gyfraith o ganlyniad i'w gwerth arbennig mewn bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth (e.e. Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig).

**Safleoedd Natura 2000 (N2K)** – rhwydwaith o safleoedd gwarchoddedig sydd o bwys Ewropeaidd a ddiogelir o dan Gyfarwydddebau Adar y Gymuned Ewropeaidd (Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig) a'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig). Dyma yw ein safleoedd pwysicaf o ran cadwraeth natur.

**Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)** – safleoedd a ddynodir o dan ddeddfwriaeth y DU (Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a'i diwygiadau dilynol) am eu pwysigrwydd biolegol, daearegol neu ffisiograffigol. Mae'n ddyletswydd ar asiantaethau cadw natur y DU (gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru) i wneud cyhoeddiad am unrhyw ddarn o dir sydd, yn eu barn hwy, 'o ddiddordeb arbennig o ganlyniad i'w fflora, ffawna, neu nodweddion daearegol neu ffisiograffigol'.

**Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig** – safon ardystio annibynnol ar gyfer gwirio rheolaeth gynaliadwy o goetiroedd yn y DU. Nid yw'n gynllun ardystio ond, yn unigryw, fe'i cynlluniwyd fel safon genedlaethol sengl at ddefnydd cyffredin gan gynlluniau ardystio coedwigaeth rhyngwladol sy'n gweithredu yn y DU.

**Seilwaith gwyrdd** - rhwydwaith sydd, o bosibl, yn gallu darparu'r cydrannau angenrheidiol i ddatrys heriau hinsoddol a threfol drwy adeiladu gyda natur - trwy blannu coed mewn ardaloedd trefol, er enghraifft. Mae prif gydrannau'r dull hwn yn cynnwys rheoli dŵr stormydd, ymaddasu i newid yn yr hinsawdd, lleihau straen gwres, gwella bioamrywiaeth, cynhyrchu bwyd, ansawdd aer gwell, cynhyrchu ynni adnewyddadwy, dŵr glân, a phriddoedd iach.

**Strategaeth Gwyddoniaeth y Môr y DU** – cynllun strategol y cytunir arno, 15 mlynedd o hyd, ar gyfer gweledigaeth y DU o gefnforoedd a moroedd sy'n lân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol. Mae'r strategaeth hon yn pennu'r cyfeiriad cyffredinol ar gyfer gwyddoniaeth y môr yn y dyfodol ledled y DU rhwng 2010 a 2025 drwy nodi ardaloedd blaenoriaeth uchel ar gyfer gwyddoniaeth y môr a mynd i'r afael â rhwystrau trawsbynciol, i helpu i gyflwyno'r wyddoniaeth.

**Symud Cymru Ymlaen – Y Rhaglen Lywodraethu** – Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ymrwymïadau'r llywodraeth dros y pum mlynedd nesaf er mwyn helpu i ysgogi gwelliant a gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl Cymru.

**Talu am Wasanaethau Ecosystemau** – yn y cynlluniau hyn, bydd pobl sy'n rheoli adnoddau naturiol, fel arfer tîrfeddianwyr, perchnogion coedwigoedd neu ffermwyr, yn cael eu talu i gyflawni buddion amgylcheddol. Mewn rhai achosion, gwneir y taliadau gan y rhai sy'n elwa o'r gwasanaethau ecosystem, er enghraifft defnyddwyr dŵr. Mewn achosion eraill, mae'r llywodraeth yn talu ar ran ei dinasyddion.

**Technolegau sy'n dod i'r amlwg** – unrhyw dechnoleg yr ystyrir ei bod yn gallu newid y sefyllfa bresennol. Mae'r technolegau hyn yn newydd yn gyffredinol, ond maent yn cynnwys technolegau hŷn sy'n dal i fod yn ddadleuol a heb eu datblygu'n llawn hyd yma, er bod ganddynt botensial. O ran termau amgylcheddol, mae'r technolegau hyn yn cael eu harchwilio fel modd mwy cynaliadwy o greu ynni a thanwydd, neu wrth ystyried deunyddiau eraill ar gyfer adeiladu, er enghraifft.

**Twf gwyrdd** – mae twf gwyrdd yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio llwybr twf economaidd sy'n defnyddio adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Caiff ei ddefnyddio'n fyd-eang i gynnig cysyniad arall i dwf economaidd safonol.

**Ucheldiroedd** – darn o dir uchel neu fryniog a ddiffinnir yn gyffredinol fel tir sy'n gorwedd uwchben y lefel lle mae dŵr yn llifo neu le mae llifogydd yn digwydd. Diffinnir hyn yn gyffredinol fel tir uwchben lefel y môr. Ym maes ecoleg dŵr croyw, afonydd a nentydd yr ucheldir yw'r afonydd a nentydd sy'n llifo'n gloi ac yn draenio tir uchel neu fynyddig, tuag at wastadeddau llifwaddodol yn aml.

**Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol** – mae Llywodraeth Cymru yn datblygu'r fframwaith, a fydd yn amlinellu fframwaith 20 mlynedd ar gyfer Cymru ynghylch defnydd tir ac a fydd yn disodli'r Cynllun Gofodol Cymru presennol. Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cefnogi strategaethau economaidd, trafniadaeth, amgylcheddol, tai, ynni a diwylliannol cenedlaethol ac yn sicrhau y gall y rhain gael eu cyflawni drwy'r system gynllunio.

**Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr** - daeth Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE i rym ym mis Rhagfyr 2000, a daeth yn rhan o gyfraith y DU ym mis Rhagfyr 2003. Mae'n cynnig cyfle i gynllunio a chynnig amgylchedd dŵr gwell, gan ganolbwyntio ar ecoleg a thrwy waith cynllunio i reoli basnau afonydd.

**Y Polisi Adnoddau Naturiol** – dyma yw'r ail elfen statudol sy'n deillio o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, ac fe'i cyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy, ac yn amlinellu diben Cyfoeth Naturiol Cymru. Y tair blaenoriaeth genedlaethol yw cynnig atebion sy'n seiliedig ar natur, cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau, a gweithredu dull sy'n seiliedig ar leoedd.

**Y Rhaglen Newid Morol** – cefnogir y rhaglen hon gan Grŵp Cyngori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol Llywodraeth Cymru, ac mae'n canolbwyntio ar gynllunio morol (gan gynnwys gweithgareddau tystiolaeth forol), Cyfarwyddiaeth Fframwaith y Strategaeth

Forol, pysgodfeydd cynaliadwy, ac Ardaloedd Morol Gwarchoddedig, gan gynnwys llamidyddion ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig.

**Ymatebwr Categori 1** – unigolyn neu sefydliad (a restrir yn Rhan 1 Atodlen 1 y Ddeddf Argyfyngau Sifil) sy'n debygol o fod wrth wraidd yr ymateb i'r rhan fwyaf o argyfyngau. Mae hyn yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru ochr yn ochr â'r gwasanaethau brys, awdurdodau lleol, cyrff y GIG ac eraill.

**Ynni adnewyddadwy** – ynni sy'n cael ei gasglu o adnoddau adnewyddadwy, sy'n cael eu hailgyflenwi'n naturiol yn ôl graddfa amser dynol, megis golau haul, gwynt, glaw, llanwau, tonnau a gwres geothermol. Mae ynni adnewyddadwy fel arfer yn darparu ynni o fewn pedwar maes pwysig: creu trydan, cynhesu/oeri awyr a dŵr, trafndiaeth, a gwasanaethau ynni gwledig (oddi ar y grid).

**Ystad Goed Llywodraeth Cymru** – coetiroedd yng Nghymru sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru ac a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

Cyhoeddwyd gan:  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Tŷ Cambria  
29 Heol Casnewydd  
Caerdydd  
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun–Gwener, 9am–5pm)

[enquiries@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:enquiries@naturalresourceswales.gov.uk)  
[www.cyfoethnaturiol.cymru](http://www.cyfoethnaturiol.cymru)

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Cewch atgynhychu'r ddogfen hon trwy ganiatâd o flaen llaw gan  
Cyfoeth Naturiol Cymru